
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

# Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i Athrawon yng Nghymru



## Datblygiad Proffesiynol, Cydnabyddiaeth ac Achrediad (Haen 2)

## Cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Gorffennaf 2006

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion proffesiynol ac ymddygiad er lles y cyhoedd. Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n ceisio darparu cyngor cynhwysfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

# Cynnwys


| Pennod | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **CRYNODEB GWEITHREDOL** | 2 |
| | **CYFLWYNIAD** | 6 |
| 1 | Fframwaith Datblygiad Proffesiynol: Cefndir a chynnydd hyd yn hyn | 6 |
| 2 | Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achredu athrawon: Materion a heriau | 12 |
| 3 | Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achredu athrawon: Egwyddorion allweddol | 17 |
| **RHAN A** | **DATBLYGIAD PROFFESIYNOL, CYDNABYDDIAETH AC ACHREDIAD** | 20 |
| 4 | Datblygiad proffesiynol gydol gyrfa: eglurder, cysondeb a phriodoldeb | 21 |
| 5 | Cydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon | 26 |
| 6 | Ennill cydnabyddiaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol | 29 |
| **RHAN B** | **RHAGLEN DATBLYGIAD PROFFESIYNOL AR GYFER CARREG FILLTIR ATHRO SIARTREDIG** | 33 |
| 7 | Cyfansoddiad y rhaglen | 35 |
| 8 | Darparwyr y Rhaglen Athro Siartredig a'u hachrediad | 42 |
| 9 | Materion gweithredu | 46 |
| 10 | Cyllid a chostau'r Rhaglen Athro Siartredig | 49 |
| **ATODIAD** | | |
| A | Diffiniad o'r termau allweddol | 54 |
| B | Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru | 57 |
| C | Enghraifft – y Rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban | 59 |
| D | Amserlen amlinellol ar gyfer datblygu ac ymgynghori ar Haenau 3 a 4 o'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol 2007-08 | 60 |
| E | Crynodeb o'r argymhellion | 61 |

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1. Gwahoddwyd CyngACC gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd yr awenau i ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon yng Nghymru yn 2004. Nodir gorchwyl y Cyngor i ddarparu cyngor i'r Cynulliad ar faterion o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol, o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

2. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyngor ar Haen 2 Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â'r datblygiad proffesiynol y mae athrawon yn ymgymryd ag ef a'i gydnabyddiaeth broffesiynol a'i achrediad.

3. Y cyngor hwn yw'r ail ddogfen o gyfres o dair dogfen debyg yn ymwneud â'r Fframwaith sy'n cael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng 2005 a 2007. Aeth y ddogfen gyngor gyntaf yn 2005 i'r afael â strwythur bras y Fframwaith a Haen 1: Cerrig milltir a safonau proffesiynol. Cafodd yr argymhellion a wnaed eu derbyn i raddau helaeth gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

## Diwygio'r Cyngor a gyflwynodd CyngACC ym mis Gorffennaf – Cerrig milltir proffesiynol

4. Mae'r Cyngor yn diwygio'i gyngor gwreiddiol i'r Gweinidog ac yn cynnig cyflwyno carreg filltir unigol ar gyfer Athro Siartredig, gyda safonau sy'n berthnasol i arfer ystafell ddosbarth ac arweinyddiaeth ganol.

## Datblygiad proffesiynol gydol gyrfa: eglurder, cysondeb a phriodoldeb

5. Mae'r Cyngor yn argymell y dylid ffurfioli rhaglenni a threfniadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru fel bod gan bob un o'r cerrig milltir proffesiynol yng ngyrfa athro/athrawes raglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn gysylltiedig â hi ac y dylai gael ei hategu gan safonau proffesiynol. Yn arbennig, dylid cyflwyno rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer athrawon sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth neu sy'n arweinwyr canol – y Rhaglen Athro Siartredig. Byddai hyn yn golygu bod y trefniadau cenedlaethol canlynol yn eu lle ar gyfer DPP athrawon:

   - SAC;
   - Sefydlu Statudol, wedi'i ddilyn gan DPC;
   - Statws Athro Siartredig;
   - CPCP, wedi'i ddilyn gan Raglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP) a Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid Mewn Swydd (LPSH).

6. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig y dylai gymryd yr awenau wrth ddatblygu enghreifftiau ac arweiniad a fydd yn cynorthwyo athrawon wrth gynllunio'u datblygiad proffesiynol y tu hwnt i unrhyw raglenni a threfniadau cenedlaethol.

## Cydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon

7. Dylai cwblhau pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn llwyddiannus arwain at ryw fath o gydnabyddiaeth broffesiynol i athrawon, sef:

   - SAC;
   - Cofrestriad llawn gyda ChyngACC ar ôl cwblhau Sefydlu Statudol;
   - Statws Athro Siartredig;
   - CPCP.

8. Er mwyn dyfarnu Statws Athro Cymwys, mae CyngACC wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cyflwyniad ffurfiol i'w gyflwyno gerbron y Cyfrin Gyngor i ddod yn Gorff Siartredig. Byddai angen i'r Cynulliad wneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol i ailddiffinio 'cofrestru llawn' yng Nghymru ar gyfer athrawon sydd wedi bodloni'r safon Sefydlu a 'chofrestru amodol' ar gyfer athrawon sy'n meddu ar SAC ond nad ydynt eto wedi bodloni'r safon Sefydlu.

## Ennill cydnabyddiaeth am ddatblygiad proffesiynol

9. Mae'r Cyngor yn cynnig y dylid sefydlu cysylltiad rhwng pob un o'r cerrig milltir a rhaglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol cysylltiedig yn y Fframwaith a'r cyfleoedd posibl i achredu o fewn y Fframwaith AU y gallai athrawon fanteisio arnynt, os dymunant wneud hynny.

10. Mae'r Cyngor yn argymell y dylai weithio ymhellach â'r sector AU yng Nghymru i annog sefydliadau i gyflwyno trefniadau achredu y gall athrawon eu cyrchu'n hawdd os ydynt am droi eu cydnabyddiaeth broffesiynol yn ddyfarniad AU.

## Rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru

### CYFANSODDIAD Y RHAGLEN

11. Mae'r Cyngor yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer ffurf fras Rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru. Yn arbennig, mae'r Cyngor yn cynghori'r canlynol:

    - byddai'n helpu i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol y rheiny sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth a'r rheiny ar lefel arweinyddiaeth ganol;
    - byddai athrawon sy'n cwblhau'r rhaglen yn cael eu cydnabod yn broffesiynol drwy ddyfarniad 'Statws Athro Siartredig';

- dylai fod dau lwybr tuag at fodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig – llwybr rhaglen a llwybr achrediad. Fel arall, gallai athrawon fabwysiadu ymagwedd 'gyfun-cydwedd' drwy gwblhau rhai modiwlau a addysgir a cheisio cael credyd drwy Ddysgu Blaenorol Achrededig (DBA/APL) neu Ddysgu Achrededig Drwy Brofiad Blaenorol (DABB/APEL) ar gyfer eraill;

- dylai athrawon allu cwblhau Athro Siartredig wrth eu pwysau eu hunain, fodd bynnag, gallai athrawon gymryd o leiaf ddwy flynedd fel arfer i gwblhau rhaglen a addysgir neu ddeuddeg mis i baratoi a chyflwyno portffolio datblygiad proffesiynol i'w achredu;

- er mwyn bod yn gymwys i ddechrau rhaglen Athro Siartredig, rhaid i athro/athrawes feddu ar SAC, bod wedi cofrestru gyda ChyngACC a meddu ar ddwy flynedd o brofiad ar ôl Sefydlu a DPC. Fodd bynnag, byddai hyblygrwydd i ddyfodiaid hŷn i'r proffesiwn sy'n meddu ar brofiad helaeth o'r tu allan i faes addysgu ddechrau llwybr a addysgir yn gynharach.

## DARPARWYR Y RHAGLEN

12. Mae'r Cyngor yn argymell na ddylai bennu pwy yw darparwyr y rhaglenni a addysgir ar gyfer Athro Siartredig. Yn hytrach, ar ôl datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, mater i ddarpar ddarparwyr fyddai datblygu rhaglenni a cheisio achrediad iddynt gan y Cyngor.

13. Fel perchnogion y garreg filltir newydd, byddai'r Cyngor yn disgwyl cymryd nifer o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Rhaglen Athro Siartredig a'i darparwyr, gan gynnwys:

- datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;

- llunio arweiniad ar gyfer darparwyr ar y rhaglen genedlaethol a'i strwythur posibl;

- cymeradwyo'r darparwyr a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni, ar ôl sefydlu meini prawf yn gyntaf ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd.

- llunio arweiniad i gynorthwyo athrawon profiadol wrth ddatblygu eu portffolios tystiolaeth i'w cyflwyno yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;

- rheoli'r gwaith o asesu ceisiadau am DBA ac DABB ar gyfer athrawon profiadol sy'n gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r Safon berthnasol (y llwybr achredu);

- penodi aseswyr cymeradwy a fyddai'n ystyried cyflwyniadau ar gyfer DBA neu DABB (y llwybr achredu).

## GWEITHREDU

14. Mae'r Cyngor yn argymell y dylai cynlluniau peilot llwybr y Rhaglen (a addysgir) a'r llwybr achredu ar gyfer Athro Siartredig ddechrau ym mis Medi 2007.

15. Ar ôl gwerthuso'r cynlluniau peilot, byddai'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf a'r gwaith o baratoi ceisiadau ar gyfer DBA/DABB gan athrawon profiadol (y llwybr achredu) yn dechrau ym mis Medi 2009.

## CYLLID AR GYFER ATHRO SIARTREDIG

16. Mae'r Cyngor yn argymell yn gryf y dylai'r Cynulliad sefydlu trefniadau cyllido cenedlaethol ar gyfer athrawon sy'n dymuno ennill statws Athro Siartredig.

17. Rhaid i'r cyllid fod ar lefel ddigonol fel nad oes unrhyw rwystrau i athrawon sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y Cyngor o ddechrau'r rhaglen. Pan gaiff ei gweithredu'n llawn, bydd angen hyd at £2 filiwn y flwyddyn o gyllid gan y Cynulliad i alluogi athrawon sy'n dymuno dilyn llwybr y rhaglen (a addysgir) neu'r llwybr achredu i ennill statws Athro Siartredig i wneud hyn.

# Cyflwyniad

## Pennod 1
## Fframwaith Datblygiad Proffesiynol: Cefndir a chynnydd hyd yn hyn

### Cyflwyniad

18. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Haen 2 Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â'r datblygiad proffesiynol y mae athrawon yn ymgymryd ag ef a'i gydnabyddiaeth broffesiynol a'i achrediad.

19. Y cyngor hwn yw'r ail ddogfen o gyfres o dair dogfen debyg yn ymwneud â'r Fframwaith sy'n cael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng 2005 a 2007. Aeth y ddogfen gyngor gyntaf yn 2005 i'r afael â strwythur bras y Fframwaith a Haen 1: Cerrig milltir a safonau proffesiynol. Bydd y drydedd ddogfen gyngor, yn 2007, yr olaf, yn ystyried cofnodi datblygiad proffesiynol yn ffurfiol a sicrhau ansawdd darparwyr datblygiad proffesiynol (Haenau 3 a 4). (Amserlen yn Atodiad D).

### Cynnydd hyd yn hyn wrth ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol

20. Tua diwedd 2003, gwahoddwyd y Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd yr awenau, gan weithio gyda phartneriaid eraill, i ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon yng Nghymru. Caiff sail ddeddfwriaethol gwaith y Cyngor mewn perthynas â datblygiad proffesiynol athrawon ei chwmpasu gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, sy'n nodi'r cyfrifoldebau canlynol:

- darparu cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff penodedig eraill ar hyfforddiant, datblygiad gyrfaol a rheoli perfformiad athrawon (aralleiriad o Baragraff 2(2)(d))
- ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo recriwtio i'r proffesiwn addysgu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon (aralleiriad o Baragraff 9(2))

21. Er mwyn datblygu syniadau am y Fframwaith, sefydlodd y Cyngor Dasglu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiwn addysgu, undebau athrawon, y sector addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, AALlau, Estyn a'r Cynulliad. Cyfarfu'r Tasglu rhwng mis Medi 2003 a mis Rhagfyr 2004. Penllanw gwaith y Tasglu oedd cyhoeddi cyngor ffurfiol i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2005 mewn perthynas â strwythur cyffredinol y Fframwaith a Haen 1: Cerrig milltir a safonau proffesiynol.

### Cyngor i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2005

22. Rhoddir crynodeb o'r prif argymhellion a gyflwynwyd gan y Cyngor o dan dri phennawd isod. (Mae set lawn yr argymhellion yn www.gtcw.org.uk).

(A) Strwythur Fframwaith Datblygiad Proffesiynol

- Datblygir Fframwaith Datblygiad Proffesiynol drwy fynd i'r afael â phedair prif haen waith, sydd oll yn gysylltiedig â'i gilydd:
  - Dilyniant gyrfaol – cerrig milltir a safonau proffesiynol;
  - Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad;
  - Cofnodi datblygiad proffesiynol a hunan-adfyfyrio;
  - Sicrhau ansawdd darparwyr.

  Dangosir y strwythur hwn yn y diagram a nodir isod.

## Fframwaith Datblygiad Proffesiynol - Haenau Gwaith Arfaethedig

| **Dilyniant Gyrfaol (Haen 1)** | **Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad (Haen 2)** | **Cofnodi a hunan-adfyfyrio (Haen 3)** | **Sicrhau Ansawdd Darparwyr (Haen 4)** |
|---|---|---|---|
| *Materion i'w codi yn cynnwys:* | *Materion i'w codi yn cynnwys:* | *Materion i'w codi yn cynnwys:* | *Materion i'w codi yn cynnwys:* |
| Cerrig milltir o fewn gyrfa athro/athrawes | Gweithgareddau DPP yr ymgymerir â hwy | Portffolio Proffesiynol yn lle… • Proffil Mynediad Gyrfa • Cyfnodion Sefydlu • Cofnodion Rheoli Perfformiad | Cofrestr darparwyr |
| Safonau proffesiynol cysylltiedig | Cymwysterau/ modiwlau proffesiynol | Trefniadau a chanllawiau i gynorthwyo athrawon i adfyfyrio am DPP yr ymgymerwyd ag ef | Cod Ymarfer a Safonau |
| | Cymwysterau/ modiwlau academaidd | Cofrestr Athrawon Cymwys | Rhoi nod barcud i sefydliadau fel darparwyr DPP |
| | | | Monitro ac arolygu darparwyr |

(B) Dilyniant gyrfaol a cherrig milltir

**Pum carreg filltir gyda safonau proffesiynol cysylltiedig**

- Dylai dilyniant drwy yrfa athro/athrawes fod yn seiliedig ar bum 'carreg filltir' broffesiynol allweddol a safonau cysylltiedig yng ngyrfa athro/athrawes. Mae tair o'r cerrig milltir a awgrymir yn bodoli eisoes. Fodd bynnag, wrth awgrymu cerrig milltir gyrfaol newydd (Athro Siartredig ac Arweinydd Canol), nid bwriad y Cyngor yw gosod rhwystrau yn ffordd athrawon. Yn hytrach, y nod yw sefydlu strwythur cliriach a mwy cydlynus i drefniadau gyrfaol a datblygiad proffesiynol sy'n bodoli eisoes.

**Cerrig milltir newydd gyda safonau proffesiynol a DPP cysylltiedig**

- Dylid datblygu carreg filltir newydd gyda safonau cysylltiedig ar gyfer Athro Siartredig. Byddai'r garreg filltir hon yn ceisio cydnabod y ffaith bod llawer o athrawon yn dymuno dilyn gyrfa llawn her yn yr ystafell ddosbarth ac yn canolbwyntio ar ragoriaeth athrawon yn yr ystafell ddosbarth a'u sgiliau addysgeg;
- Dylid datblygu carreg filltir newydd gyda safonau cysylltiedig ar gyfer Arweinwyr Canol. Byddai'r garreg filltir hon yn ceisio sefydlu set o nodweddion cyffredin sy'n darparu eglurder i athrawon drwy ategu pob rôl ar lefel arweinydd canol.

**Rhaglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol ar gyfer Athro Siartredig ac Arweinydd Canol**

- Datblygir rhaglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol ar gyfer pob un o'r cerrig milltir newydd. Byddai'r rhain yn cynnig cyfle i athrawon o'r fath gael datblygiad proffesiynol ffurfiol, pe dymunent gael hynny;
- Byddai athrawon sy'n cwblhau un o'r rhaglenni cenedlaethol yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu cyflawniadau, ar ffurf 'Statws Athro Siartredig'.

**Cydlyniaeth mewn safonau proffesiynol**

- Sefydlir sefyllfa lle mae gan bob carreg filltir set o safonau wedi'u datblygu o dan set gyffredin o benawdau, er mwyn cynorthwyo athrawon i bennu'r hyn sy'n briodol ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd.

(C) Materion cyllido

- Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi datganiad sy'n nodi'n glir ei strategaeth a'r trefniadau cyllido ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru. Dylai hyn fynd i'r afael â thair lefel – yr unigolyn, yr ysgol a'r AALl/cenedlaethol;
- Mae'r Cynulliad yn gosod dyddiad targed a dylai fod gan bob athro/athrawes yr hawl i gael DPP â ffocws unigol erbyn y dyddiad hwnnw.

23. Derbyniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, mewn egwyddor, argymhellion y Cyngor[1] a gwahoddodd y Cyngor i symud ymlaen i ddatblygu, yn amodol ar ymgynghoriad gyda'r proffesiwn, cyngor pellach ar Haen 2 o'r Fframwaith, sef y datblygiad proffesiynol y mae athrawon yn ymgymryd ag ef a sut y gallent gael cydnabyddiaeth ac achrediad amdano.

[1] Ac eithrio'r argymhelliad olaf o dan ***Faterion Cyllido*** uchod.

**Datblygu'r cyngor ar Haen 2 – ymgynghori â'r proffesiwn addysgu**

24. Yn gyson â'i ymagwedd o dan Haen waith 1, sefydlodd y Cyngor Dasglu i ddatblygu syniadau ar Haen 2 y Fframwaith. Cyfarfu'r Tasglu rhwng mis Medi 2004 a mis Rhagfyr 2005 a phenllanw ei waith oedd cyhoeddi ail ddogfen ymgynghori o'r enw Ymgynghoriad ar Gydnabyddiaeth ac Achrediad Proffesiynol Datblygiad Proffesiynol Athrawon (Haen 2).

25. Roedd yr ymarfer ymgynghori ar Haen 2 ar waith rhwng 17 Chwefror 2006 a 28 Ebrill 2006. Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i'r sefydliadau canlynol:

    - Undebau a chymdeithasau athrawon yng Nghymru;
    - Awdurdodau Addysg Lleol;
    - Awdurdodau Esgobaethol;
    - Sefydliadau addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon;
    - Partïon eraill â diddordeb yn y sector Addysg.

26. Cafodd manylion yr ymgynghoriad eu cynnwys hefyd yn rhifyn mis Chwefror o Gyfnodolyn y Cyngor, ***Addysgu Cymru***, a gafodd ei gylchredeg i bob athro/athrawes gofrestredig yng Nghymru. Anogwyd athrawon cofrestredig a oedd yn dymuno ymateb i wneud hynny naill ai'n electronig, gan ddefnyddio'r holiadur ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk neu drwy ofyn am gopi o'r holiadur yn uniongyrchol gan y Cyngor.

27. Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, casglodd y Cyngor wahanol safbwyntiau a derbyniodd adborth ar Haen 2 y Fframwaith mewn nifer o ffyrdd eraill, gan gynnwys:

    - ynghyd â chyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, trefnodd y Cyngor bedair seminar ymgynghori fach. Targedwyd pob seminar at grŵp gwahanol yn y proffesiwn addysgu (Caerdydd a'r Wyddgrug – athrawon profiadol; Abertawe – Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid, Penaethiaid Cynorthwyol; Aberystwyth – Athrawon yn eu tair blynedd cyntaf ers SAC). Cynigiodd y seminarau gyfle i gynadleddwyr dderbyn gwybodaeth am Haen 2 y Fframwaith a rhoesant gyfle gwerthfawr i'r Cyngor holi barn fanwl cynadleddwyr drwy sesiynau gweithdy. Mae'r wybodaeth 'ansoddol' hon wedi bod yn werthfawr wrth ddatblygu cyngor y Cyngor i'r Cynulliad ar Haen 2;
    - cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ADEW, sefydliadau addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon ac undebau a chymdeithasau athrawon yng Nghymru i amlinellu cynigion y Cyngor ac i dderbyn adborth;
    - mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o wahoddiadau i gyflwyno manylion ei gynigion ar gyfer Haen 2 y Fframwaith i ystod o gynulleidfaoedd, er enghraifft Cynhadledd Cymru yr IPDA;
    - mae'r Cyngor wedi ceisio tynnu sylw at ei gynigion ar gyfer Haen 2 ac ysgogi trafodaeth, er enghraifft, drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg a chyflwyno gwybodaeth ar ei wefan.


28. Er mwyn sicrhau bod y syniadau a'r datblygiad diweddaraf ym maes DPP a materion cysylltiedig yn hysbys iddo, mae'r Cyngor wedi parhau i ymgymryd â gwaith ymchwiliol i ddeall cynlluniau presennol a chynlluniau'r dyfodol yn y meysydd canlynol:

- safbwyntiau ar dâl, telerau ac amodau yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys trafodaethau statudol y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) a'r Grŵp Cydnabyddiaeth ac Anogaeth (RIG);
- gwaith yr Asiantaeth Datblygu Athrawon ar gyfer Ysgolion (TDAS) yn Lloegr wrth adolygu safonau ar gyfer athrawon dosbarth;
- canfod pa strwythurau a fframweithiau datblygiad proffesiynol sydd ar waith mewn proffesiynau eraill a'r proffesiwn addysgu mewn gwledydd eraill;


**Diwygio'r Cyngor a gyflwynodd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2005**

29. Wrth ddatblygu'r haen hon o'r Fframwaith, canfu'r Tasglu ac ymgynghoriad y Cyngor gyda'r proffesiwn nad oedd angen cerrig milltir newydd ar gyfer Athro Siartredig ac Arweinydd Canol, ar lefel ymarferol. Yn hytrach, byddai'n bosibl ac yn ddymunol gosod safonau sy'n berthnasol i arfer ystafell ddosbarth ac arweinyddiaeth ganol yn yr un garreg filltir. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos athrawon cynradd sydd yn aml yn cyflawni'r ddwy rôl.

30. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn diwygio'i gyngor gwreiddiol i'r Gweinidog ac yn seilio'r ail ddogfen gyngor hon ar y model diwygiedig canlynol.



31. Wrth nodi'r diwygiad hwn, mae'r Cyngor yn pwysleisio nad yw'n tanbwysleisio rôl a phwysigrwydd arweinwyr canol. Fodd bynnag, wrth adlewyrchu'r cryn orgyffwrdd yn rolau athrawon dosbarth ac arweinwyr canol, **caiff y safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig ar ei newydd wedd eu datblygu yn y fath ffordd fel eu bod yn ymgorffori'r ddwy rôl.** Mae hyn yn debygol o gael ei gyflawni drwy sicrhau bod gan y garreg filltir set gyffredin o safonau sy'n berthnasol i arfer dosbarth ac arweinyddiaeth ganol fel ei gilydd, a safonau pellach sy'n berthnasol i arfer dosbarth neu arweinyddiaeth ganol yn unig.



# Pennod 2
# Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad: Materion a heriau

## Y datblygiad proffesiynol sydd ar gael i athrawon

32. Ar hyn o bryd, caiff athrawon gyfleoedd i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol pellach. Mae llawer o'r gweithgarwch hwn yn cael ei lywio drwy'r broses Rheoli Perfformiad sydd bellach wedi'i sefydlu mewn ysgolion, a daw cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys y Gronfa Ysgolion Gwell, Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol Parhaus CyngACC neu gyllideb yr ysgol.

33. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol hyn yn niferus, ond gellir eu grwpio'n rhesymol yn dri phrif gategori:

### Datblygiad proffesiynol ffurfiol a drefnir yn ganolog

34. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu nifer o raglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol a drefnir yn ganolog yng Nghymru. Er enghraifft:

- mae pob athro/athrawes newydd gymhwyso bellach yn cael cefnogaeth ar ddechrau eu gyrfa addysgu, ar ffurf blwyddyn Sefydlu statudol, wedi'i dilyn gan ddwy flynedd pellach o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC);
- mae'r Cynulliad yn darparu cefnogaeth ar gyfer y rheiny sy'n dyheu i fod yn benaethiaid drwy sefydlu rhaglen orfodol o ddatblygiad proffesiynol (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)), wedi'i dilyn gan raglen genedlaethol bellach ar gyfer y rheiny sy'n mynd i'w swyddi cyntaf fel penaethiaid (y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP)).

### Gweithgareddau datblygiad proffesiynol a drefnir yn benodol gan ysgol, AALl neu sefydliad arbennig arall

35. Mae ysgolion ac AALlau yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau datblygiad proffesiynol eu hunain. Mae nifer a natur gweithgareddau o'r fath yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion ac AALlau unigol, ond gallent gynnwys:

- cyrsiau hyfforddiant mewn swydd yn cwmpasu ystod o faterion fel rheoli ymddygiad, strategaethau dysgu, iechyd a diogelwch neu addysg gynhwysol;
- cefnogaeth uniongyrchol ar lefel adran neu ysgol gyfan, yn aml drwy ddefnyddio arbenigwyr o dîm ymgynghorol yr AALl;
- modiwlau arweinyddiaeth ysgol (SLMs) neu hyfforddiant arweinyddiaeth lefel ganol, yn aml mewn cydweithrediad â sefydliad addysg uwch;
- DPP 'gloywi', a fydd yn galluogi athrawon i sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfoes ynghylch amrywiol brosesau, systemau neu ofynion statudol. Gallai enghraifft nodweddiadol gynnwys sesiwn sy'n cael ei chynnal gan fwrdd arholi mewn perthynas â chyflwyno maes llafur newydd;

- cyrsiau hyfforddi byr ar faterion penodol y gellid bod wedi cytuno arnynt gyda'r pennaeth drwy'r broses rheoli perfformiad, er enghraifft pecyn TGCh newydd neu becyn sy'n bodoli eisoes.

## Individual professional development

36. Mae athrawon hefyd yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol pellach eu hunain, fel unigolion. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywiol iawn eu natur, a gallant gynnwys:

    - dysgu achrededig ffurfiol, fel cwrs gradd uwch;
    - dysgu llai ffurfiol fel ymweld ag ysgol leol i arsylwi arfer;
    - gweithgareddau a gyllidir drwy raglen gyllido datblygiad proffesiynol â ffocws unigol CyngACC, sy'n cael ei gweinyddu ar ran y Cynulliad;
    - gweithgareddau sy'n cael eu cyllido drwy gynlluniau penodol a sefydlwyd gan y Cynulliad fel Iaith Pawb;
    - gweithgareddau sy'n cael eu sbarduno gan yr athro/athrawes yn bersonol y tu allan i'w swydd addysgu, ond sydd serch hynny'n cael effaith gadarnhaol ar eu haddysgu a'u gyrfaoedd;
    - mae addysgu, drwy ei union natur, yn golygu bod athro/athrawes yn datblygu'n broffesiynol o ganlyniad naturiol i'w arfer proffesiynol bob dydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, addysgu pwnc newydd neu grŵp blwyddyn am y tro cyntaf, cymryd cyfrifoldebau newydd dros dro neu oruchwylio taith ysgol am y tro cyntaf.

## Materion a heriau

37. Er gwaethaf yr ystod hon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael ac sy'n cael eu cymryd gan athrawon yng Nghymru, nododd y Cyngor yn ei gyngor i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2005 fod nifer o gyfyngiadau penodol yn y trefniadau presennol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon Cymru.

38. Mae llawer o'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud yn benodol â Haen 2 y Fframwaith a sonnir amdanynt yn fanylach isod:

    - diffyg eglurder a chysondeb yn y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n agored i athrawon wrth iddynt symud drwy eu gyrfaoedd;
    - anghydraddoldeb o ran mynediad athrawon i ddatblygiad proffesiynol;
    - cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am y datblygiad proffesiynol y maent yn ymgymryd ag ef;
    - cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael achrediad am y datblygiad proffesiynol y maent yn ymgymryd ag ef.

## Diffyg eglurder a chysondeb yn y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n agored i athrawon neu sydd fwyaf priodol wrth iddynt symud drwy eu gyrfaoedd

39. Er gwaethaf yr amrywiol gyfleoedd sydd ar gael ac, mewn llawer o amgylchiadau, y cyngor rhagorol a gynigir i athrawon gan benaethiaid a mentoriaid drwy'r broses rheoli perfformiad mewn ysgolion a gwasanaethau ymgynghorol AALlau, mae profiadau datblygiad proffesiynol llawer o athrawon yn parhau i ddigwydd ar hap a damwain i raddau helaeth.

40. Anhawster arbennig yn y cyswllt hwn yw'r diffyg eglurder ynghylch pa gyfleoedd sydd ar gael mewn gwirionedd, a pha opsiynau datblygiad proffesiynol sydd fwyaf priodol ar adeg benodol yng ngyrfa athro/athrawes.

41. Rydym o'r farn y byddai'n fanteisiol adolygu'r trefniadau hyn, yn genedlaethol i bennu a ellid sicrhau gwell eglurder, nid yn unig ynghylch yr hyn sydd ar gael, ond hefyd ynghylch yr hyn fyddai fwyaf priodol ar adeg benodol yng ngyrfa athro/athrawes. Dylai rhan allweddol o'r adolygiad hwn gynnwys nodi unrhyw fylchau yn y trefniadau datblygiad proffesiynol sy'n bodoli eisoes, er mwy sicrhau bod pob athro/athrawes yn cael datblygiad proffesiynol o ddechrau eu gyrfaoedd tan y diwedd, er gwaethaf ffactorau fel y sector maent yn gweithio ynddo, lleoliad daearyddol, hyd gwasanaeth neu gyfyngiadau cyllido.

42. Yn wir, yn rhan o ymgynghoriad y Cyngor ar Haen 2, amlygodd ymatebwyr nifer o fylchau yn y trefniadau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft:

- athrawon sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth;
- athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Dirprwy Benaethiaid/Penaethiaid Cynorthwyol nad ydynt yn dymuno dod yn benaethiaid;
- athrawon sy'n addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Anghydraddoldeb o ran mynediad athrawon i ddatblygiad proffesiynol

43. At hyn, nid yw athrawon bob amser yn cael yr un mynediad i'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n bodoli ar draws Cymru. Mae gwahaniaethau yn aml yn dibynnu ar ffactorau megis:

- graddau ac amrywiaeth y gefnogaeth a'r ddarpariaeth DPP mewn AALlau;
- ffactorau sy'n benodol i ysgolion, fel maint yr ysgol a'r ymrwymiad a ddangosir gan ysgolion unigol sy'n datblygu athrawon;
- cyllid digonol a chyson ar gyfer DPP ar lefel unigolyn, ysgol, AALl neu lefel genedlaethol. Er enghraifft, nid yw pob athro/athrawes sy'n dymuno dilyn rhaglen CPCP yn cael gwneud hyn neu gallai pennaeth deimlo nad oes modd cefnogi rhai gweithgareddau DPP ar gyfer ei athrawon oherwydd cyfyngiadau cyllidebol;
- argaeledd datblygiad proffesiynol mewn ardal leol gan ddarparwyr preifat, sefydliadau addysg uwch neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mae hyfforddiant i arweinwyr lefel ganol yn haws o lawer i'w gyrchu yn Ne Cymru nag mewn rhannau eraill o Gymru. Hefyd, mae prinder datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd;
- rôl swydd, er enghraifft; nid yw athrawon cyflenwi bob amser yn cael mynediad i weithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n cael eu trefnu gan AALlau ac er mwyn cael mynediad i lawer o fathau o ddatblygiad proffesiynol, mae'n rhaid iddynt aberthu

diwrnod neu fwy o incwm. Hefyd, mae niferoedd cynyddol o athrawon newydd gymhwyso'n methu ag ymgymryd â Sefydlu oherwydd na allant gael swyddi addysgu cadarn;

- y sector y mae athro/athrawes yn gweithio ynddo, er enghraifft; yn aml mae datblygiad proffesiynol wedi'i sefydlu i raddau tipyn llai ar gyfer grwpiau fel athrawon peripatetig neu'r rheiny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

44. Mae angen sicrhau nad yw gwahaniaethau o'r fath yn rhwystrau i ddatblygiad proffesiynol unrhyw athro/athrawes neu'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd.

45. Fel y pwysleisiwyd yn ei gyngor ym mis Gorffennaf 2005, mae'r Cyngor o'r farn bod y mater cyllid o bryder arbennig yn y cyswllt hwn. Yn ei ddogfen gyngor *Datblygiad Proffesiynol Parhaus: Hawl i Bawb* (2002), nododd y Cyngor fod angen sicrhau strategaethau cyllido priodol ar dair lefel:

- DPP â ffocws unigol;
- DPP â ffocws ysgol;
- DPP â ffocws AALl/cenedlaethol.

46. Mae angen clir i sicrhau bod datblygiad proffesiynol athrawon, yn ei holl ffurfiau, yn cael ei gyllido'n ddigonol, gan sicrhau cydraddoldeb mynediad i holl athrawon Cymru.

47. Fel yr argymhellwyd yng nghyngor y Cyngor i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2005, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi datganiad yn nodi manylion y cyllid sydd ar gael ganddi'n flynyddol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon.

48. Er bod eglurder y datganiad hwn o gymorth mawr i'r proffesiwn, gellid gwneud cynnydd pellach petai AALlau a chyflogwyr yn dilyn arfer Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyhoeddi datganiad tebyg. Byddai hyn yn darparu darlun cyflawn o gyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer DPP athrawon Cymru.

## Cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol

49. Yn ogystal â'r diffyg eglurder ynghylch pa ddatblygiad proffesiynol sydd ar gael mewn gwirionedd ac sydd fwyaf priodol i athrawon ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd, mae cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am unrhyw ddatblygiad proffesiynol y maent yn ymgymryd ag ef.

50. Mae dwy o'r cerrig milltir yng ngyrfa athro/athrawes yn cynnig cydnabyddiaeth broffesiynol, sydd ag hygrededd o fewn a thu allan i'r proffesiwn addysgu, sef:

- mae carreg filltir SAC yn cynnig cydnabyddiaeth broffesiynol ar ffurf Statws Athro Cymwys (SAC);
- mae carreg filltir Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd yn cynnig cydnabyddiaeth broffesiynol ar ffurf CPCP.

51. Fodd bynnag, ar wahân i'r ddau achos hyn, nid oes unrhyw gyfleoedd sydd wedi'u diffinio'n glir i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol. Mae hyn yn siomedig pan ystyrir y canlynol:

- nid yw'r mwyafrif helaeth o athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd nac ychwaith yn dyheu i fod yn benaethiaid;

- fel y disgrifir ar ddechrau'r bennod hon, mae athrawon yn ymgymryd ag ystod eang o ddatblygiad proffesiynol yn ystod eu gyrfaoedd a dylai fod modd defnyddio llawer o hyn i ennill rhyw fath o gydnabyddiaeth broffesiynol drwy 'Ddysgu Blaenorol Achrededig (DBA)' neu 'Ddysgu Achrededig Drwy Brofiad Blaenorol (DABB)';

- mae cydnabyddiaeth broffesiynol yn gysyniad mwyfwy cyfarwydd mewn proffesiynau eraill ac yn y proffesiwn addysgu mewn gwledydd eraill. Yn yr Alban, er enghraifft, mae athrawon sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth yn gallu ennill teitl proffesiynol Statws Athro Siartredig. Yn yr un modd, mae dyfarnu 'Statws Siartredig' yn gyffredin mewn nifer o broffesiynau eraill y tu allan i addysgu.

## Diffyg eglurder yn y cyfleoedd a'r trefniadau i gyflawniadau proffesiynol athrawon gael eu hachredu

52. Ochr yn ochr â'r cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol, mae diffyg eglurder hefyd yn y trefniadau i gyflawniadau proffesiynol athrawon gael eu hachredu gan y sector AU yng Nghymru, drwy ddyfarnu 'credyd', sy'n arwain at gymwysterau academaidd pellach.

53. Gwnaed rhywfaint o gynnydd gan y sector AU yng Nghymru, sef:

    - mae carreg filltir broffesiynol SAC yn cynnig achrediad ar ffurf TAR neu BEd pan wneir hyn yn rhan o raglen addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon;

    - gall carreg filltir broffesiynol Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd, a gydnabyddir drwy CPCP, gyfrif fel hyd at 60 credyd tuag at radd Meistr (yn amodol ar gwblhau aseiniad pontio);

    - mae rhai sefydliadau'n cynnig cymwysterau fel Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma i Raddedigion neu radd Meistr mewn Addysg a chaiff athrawon ddefnyddio'u gwaith addysgu a'u cyflawniadau i geisio cael 'credyd' tuag at y cymwysterau hyn.

54. Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd eisoes, mae athrawon yn ymgymryd ag ystod eang o ddatblygiad proffesiynol yn ystod eu gyrfaoedd a dylai fod modd defnyddio llawer o hyn fel credyd (drwy Ddysgu Blaenorol Achrededig (DBA) neu Ddysgu Achrededig drwy Brofiad Blaenorol (DABB)) tuag at gymwysterau academaidd.

55. Byddai'n arbennig o fuddiol i athrawon:

    - petai'r Fframwaith yn sefydlu cyfleoedd clir i bob athro/athrawes gael achrediad am eu datblygiad proffesiynol a'u harfer addysgu;

    - petai'r sector AU yng Nghymru yn cyfathrebu'n fwy effeithiol ei drefniadau cenedlaethol ar gyfer achredu datblygiad proffesiynol ac arfer athrawon.

56. Cydnabuwyd pob un o'r materion a ddisgrifir uchod gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor fel materion y dylai Haen 2 y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol geisio mynd i'r afael â hwy.

# Pennod 3
# Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad: Egwyddorion allweddol

57. Mae'r Cyngor o'r farn y dylai'r egwyddorion bras canlynol ategu'r haen hon o'r Fframwaith.

## Datblygiad proffesiynol

- bydd y Cyngor yn defnyddio'r diffiniad o ddatblygiad proffesiynol a sefydlodd yn ei gyngor yn 2002 i'r Cynulliad, *DPP: Hawl i Bawb*, sef:

  ***Mae Datblygiad Proffesiynol yn cwmpasu'r holl ddysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi athrawon i wella eu harferion***

  Mae defnyddio diffiniad 'eang' o ddatblygiad proffesiynol yn cydnabod yr ystod helaeth o ddatblygiad proffesiynol y mae athrawon yn ymgymryd ag ef, fel y disgrifiwyd yn gynharach ym Mhennod 2, gan gynnwys datblygiad proffesiynol sy'n digwydd yn naturiol o fewn swydd addysgu ac yn yr ysgol;

- dylai'r Fframwaith geisio sicrhau bod pob athro/athrawes yn cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel waeth pa gam bynnag o'u gyrfaoedd maent wedi'i gyrraedd a ffactorau fel pa sector maent yn gweithio ynddo, y lleoliad daearyddol, hyd eu gwasanaeth neu gyfyngiadau cyllid;

- lle mae rhaglenni cenedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn amlwg yn brin i lawer o athrawon, dylai'r Fframwaith geisio cyflwyno rhaglenni newydd i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Bydd hyn yn helpu i roi cysondeb, cydlyniaeth a chydraddoldeb mynediad i DPP athrawon;

- tra'n annog pob athro/athrawes i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol drwy gydol eu gyrfaoedd, dylai rhai rhaglenni datblygiad proffesiynol fod yn ddewisol;

- dylid sicrhau ansawdd rhaglenni datblygiad proffesiynol a'u darparwyr o fewn y Fframwaith.

## Cydnabyddiaeth broffesiynol

- dylai'r Fframwaith ddarparu cyfleoedd i bob athro/athrawes gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol;

- dylai'r Fframwaith helpu athrawon i ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol a'u profiadau yn yr ysgol, fel tystiolaeth, ar ffurf dysgu blaenorol achrededig tuag at gymwysterau proffesiynol;

- dylid datblygu meini prawf eglur a system safonol i alluogi athrawon i gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol a'u cyflawniad;

## Achrediad

- dylai'r Fframwaith ddarparu cyfleoedd i bob athro/athrawes gael achrediad am eu datblygiad proffesiynol;

- dylai'r Fframwaith helpu athrawon i ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol a'u profiadau yn yr ysgol, fel tystiolaeth, ar ffurf dysgu blaenorol achrededig tuag at gymwysterau academaidd;
- mater i'r athro/athrawes unigol yw penderfynu a yw'n dymuno defnyddio'r dystiolaeth yn sgil datblygiad proffesiynol i gael achrediad;
- dylid datblygu meini prawf eglur a system safonol i alluogi athrawon i geisio cael credyd am eu datblygiad proffesiynol a'u cyflawniad;

58. Cafwyd cefnogaeth gref i'r egwyddorion uchod gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor fel egwyddorion a ddylai ategu Haen 2 o'r Fframwaith. Yn wir, dywedodd un undeb athrawon amlwg fod "Yr egwyddorion yn eang ac yn gynhwysfawr ond nid yn gyfyngol nac yn llethol".

59. Fodd bynnag, wrth sefydlu'r egwyddorion hyn, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y pwyntiau gwerthfawr canlynol a nodwyd gan ymatebwyr:

    - mae'r egwyddorion yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i athrawon gymryd perchnogaeth dros eu datblygiad proffesiynol a chael mewnbwn sylweddol i'w datblygiad proffesiynol eu hunain. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd rolau pwysig ac ategol AALlau a'r broses Rheoli Perfformiad mewn ysgolion.
    - gwerthfawrogir na ddylid diystyru blaenoriaethau ysgolion, AALlau a blaenoriaethau cenedlaethol a bod angen mynd i'r afael â'r rhain hefyd.

60. Mae penodau dilynol y ddogfen ymgynghori yn cymhwyso'r egwyddorion bras hyn wrth fynd i'r afael â phob un o'r materion a nodwyd.

*Argymhellion:*

**Mae'r Cyngor yn argymell:**

- bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r egwyddorion allweddol a nodwyd ym Mhennod 3 mewn perthynas â datblygiad proffesiynol athrawon a'i gydnabyddiaeth a'i achrediad.

# RHAN A

# Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad

# Rhan A
## Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad

61. Ar ôl gosod egwyddorion eglur a ddylai ategu datblygiad proffesiynol athrawon a'i gydnabyddiaeth a'i achrediad, mae Rhan A o'r cyngor hwn yn cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth gyflwyno argymhellion i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ym Mhennod 2, sef:

- diffyg eglurder a chysondeb yn y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n agored i athrawon wrth iddynt symud drwy eu gyrfaoedd;
- anghydraddoldeb o ran mynediad athrawon i ddatblygiad proffesiynol;
- cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol;
- cyfleoedd cyfyngedig i athrawon gael achrediad am eu datblygiad proffesiynol.

# Pennod 4
# Datblygiad proffesiynol gydol gyrfa: eglurder, cysondeb a phriodoldeb

62. Er gwaethaf yr ystod helaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n agored i athrawon yng Nghymru, mae profiadau datblygiad proffesiynol llawer o athrawon yn rhai sy'n digwydd ar hap a damwain o hyd i raddau helaeth. Gall Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon helpu i fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau:

- bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol cyson a chydlynus sy'n hygyrch i bob athro/athrawes o ddechrau eu gyrfaoedd tan y diwedd, er gwaethaf ffactorau fel rôl eu swydd, y sector maent yn gweithio ynddo, lleoliad daearyddol, hyd eu gwasanaeth neu gyfyngiadau cyllido;
- bod yr opsiynau datblygiad proffesiynol sy'n agored i athrawon ar adegau penodol yn eu gyrfaoedd yn glir, o ran yr hyn sydd ar gael, a'r hyn sydd fwyaf priodol ar adegau penodol yn ystod gyrfa addysgu.

## Rhaglenni a threfniadau cenedlaethol

### Rhaglenni cenedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig

63. Mae'r Cyngor wedi nodi y dylai gyrfa ym maes addysgu gael ei hategu gan bedair prif garreg filltir yrfaol: SAC, Sefydlu, Athro Siartredig a Phrifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd. Mae trefniadau cenedlaethol yn eu lle ar gyfer tair o'r cerrig milltir hyn (Statws Athro Cymwys, Sefydlu a Phrifathrawiaeth), lle caiff athrawon ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'r adeg benodol yn eu gyrfaoedd ac sy'n cael eu hasesu ar yr un pryd yn erbyn y safonau proffesiynol ar gyfer y garreg filltir broffesiynol honno.

64. Derbyniwyd mewn egwyddor gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau argymhelliad y Cyngor y dylid sefydlu rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig ar gyfer carreg filltir newydd Athro Siartredig, ar yr amod bod y Cyngor yn datblygu manylion rhaglen o'r fath[2]. Ar ôl ymgynghori â'r proffesiwn, darperir manylion pellach yn Rhan B o'r ddogfen hon.

65. Felly, yn y dyfodol agos, dylai fod rhaglenni cenedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn eu lle ar gyfer pob athro/athrawes yng Nghymru sy'n rhychwantu gyrfa ym maes addysgu yn ei chyfanrwydd. Dylai rhaglenni o'r fath fod yn agored i bob athro/athrawes ac yn gyson o ran eu cynnwys a'u hansawdd.

### Datblygiad proffesiynol cenedlaethol nad oes unrhyw safonau cenedlaethol yn bodoli ar eu cyfer

66. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod y trefniadau datblygiad proffesiynol cenedlaethol canlynol yn bodoli:

- Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC);

[2] Atgoffir y Gweinidog fod cyngor y Cyngor ym mis Gorffennaf 2005 wedi awgrymu dwy garreg filltir newydd gyda rhaglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y naill a'r llall. Drwy ddiwygio'i gyngor gwreiddiol i garreg filltir unigol, sef Athro Siartredig (gweler Pennod 1), un rhaglen genedlaethol yn unig o ddatblygiad proffesiynol fyddai'n cael ei datblygu.

- Y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP);
- Y Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd (LPSH).

67. Er nad yw'r trefniadau hyn wedi'u hategu gan safonau proffesiynol, cydnabyddir eu gwerth ac maent yn deilwng o'u cynnwys mewn unrhyw Fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon.

## Diffinio'r rhaglenni a'r trefniadau cenedlaethol

68. Mae'r Cyngor, felly, yn cynnig y dylai'r Fframwaith ddiffinio'r **rhaglenni a'r trefniadau cenedlaethol** canlynol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru.

69. Mae nodweddion nodedig y trefniadau hyn yn cynnwys:

- bydd rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn gysylltiedig â phob un o'r cerrig milltir proffesiynol yng ngyrfa athro/athrawes;
- byddai pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn cael ei hategu gan y safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir broffesiynol arbennig. Drwy gwblhau un o'r rhaglenni cenedlaethol yn llwyddiannus, byddai athro/athrawes yn cael ei asesu/hasesu yn erbyn y safonau proffesiynol perthnasol;

### Rhaglenni a threfniadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru

| Carreg filltir broffesiynol (a safonau cysylltiedig) | Rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol | Datblygiad proffesiynol cenedlaethol pellach ar ôl cwblhau |
|---|---|---|
| Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth | Y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP) |
| Athro Siartredig | Rhaglen Athro Siartredig | |
| Sefydlu | Rhaglen Sefydlu Statudol | Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) |
| Statws Athro Cymwys (SAC) | Rhaglen addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon neu lwybr drwy gyflogaeth, fel y Rhaglen Athro Graddedig | |

- byddai pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn gydlynus ac yn cynnig dilyniant yn eu cynnwys a'u cwmpas;
- er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gallai athrawon ddewis dilyn llwybrau gyrfaol gwahanol ar ôl Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, dylai'r rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer cerrig milltir Athro Siartredig a Phrifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd fod yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol;
- byddai datblygiad proffesiynol sy'n bodoli eisoes ar lefel arweinydd canol, yn benodol modiwlau arweinyddiaeth ysgol (SLMs) a hyfforddiant arweinyddiaeth lefel ganol a drefnir gan AALlau a sefydliadau addysg uwch yn cael eu cynnwys yn y rhaglen genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig. Nodir manylion pellach yn Rhan B o'r ddogfen gyngor hon.

## Meysydd i'w datblygu ymhellach neu fylchau yn y trefniadau cenedlaethol arfaethedig

70. Er bod cefnogaeth gref iawn ymysg y proffesiwn i'r trefniadau cenedlaethol arfaethedig, gan gynnwys cyflwyno Rhaglen Athro Siartredig, cododd ymatebwyr nifer o bwyntiau defnyddiol ychwanegol:

- roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod bylchau yn y trefniadau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes mewn rhai meysydd penodol, gan gynnwys athrawon sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, mentora a hyfforddi ac addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol;
- nid yw rhai athrawon yn gweithio mewn cyd-destun ysgol 'traddodiadol', er enghraifft athrawon cyflenwi, athrawon peripatetig neu'r rheiny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Fodd bynnag, mae eu hanghenion datblygiad proffesiynol yr un mor bwysig;
- nid yw pob athro/athrawes newydd gymhwyso sy'n dymuno ymgymryd â Sefydlu a chael budd y datblygiad proffesiynol y mae hyn yn esgor arno yn gallu gwneud hyn oherwydd prinder swyddi;
- mae rhai Dirprwy Benaethiaid neu Benaethiaid Cynorthwyol nad ydynt yn dyheu i fod yn benaethiaid, fodd bynnag, byddent yn dal yn dymuno gweld fframwaith cenedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol iddynt.

71. Er nad yw'n bosibl darparu ar gyfer pob gofyniad o'r fath mewn Fframwaith cenedlaethol, mae'r Cyngor yn gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â darparu ar gyfer y grwpiau hyn.

## Cyfleoedd datblygiad proffesiynol eraill a'u lle yn y Fframwaith

72. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 2, mae athrawon hefyd yn ymgymryd ag ystod o ddatblygiad proffesiynol yn ychwanegol at unrhyw raglenni neu drefniadau cenedlaethol. Mae gweithgareddau o'r fath yn helaeth ac yn amrywiol eu natur, ac yn cynnwys datblygiad proffesiynol a drefnir gan athrawon unigol, ysgolion neu AALlau.

73. Oherwydd helaethder ac amrywiaeth gweithgareddau o'r fath, byddai'n anymarferol ceisio ffurfioli materion gan ddefnyddio'r Fframwaith i bennu pa ddatblygiad proffesiynol sydd ar gael a pha beth fyddai fwyaf priodol ar adeg benodol yng ngyrfa athro/athrawes.

74. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i athrawon wrth gynllunio'u gyrfaoedd a'u datblygiad proffesiynol petai'r Cygnor yn datblygu enghreifftiau ac arweiniad yn nodi'r mathau o weithgareddau datblygiad proffesiynol a allai fod yn berthnasol ar adeg benodol mewn gyrfa.

75. Gellid cyflwyno gwybodaeth o'r fath yn hawdd ac yn glir drwy ei chysylltu â phob un o'r cerrig milltir a'r safonau proffesiynol yn y Fframwaith. Fodd bynnag, wrth ei datblygu, dymuna'r Cyngor nodi'r canlynol:

- byddai'n arweiniad i athrawon yn hytrach nag yn orbenodol ei natur nac yn ymddangos fel disgwyliad ar athrawon nac yn gyfarwyddyd iddynt;
- ni fyddai'n disodli'r gwaith cynllunio datblygiad proffesiynol yn yr ysgol, AALl neu ar lefel genedlaethol, ond byddai'n gymorth defnyddiol fel rhan o'r broses Rheoli Perfformiad;
- byddai'n gwneud defnydd o ymagweddau tebyg i'r rheiny sydd wedi'u mabwysiadu gan nifer fach o AALlau yn Lloegr a rhai AALlau yng Nghymru sydd wedi datblygu 'cyfeirlyfrau' o'r DPP sydd ar gael drwy eu gwasanaethau ymgynghorol;
- byddai'n cael ei datblygu mewn ymgynghoriad llawn â'r proffesiwn;
- byddai ar gael ar-lein ac yn cael ei hadolygu/diweddaru'n gyson.

76. Croesawyd y cynnig hwn yn fawr iawn gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor.

77. Os bydd y Gweinidog yn cefnogi'r ymagwedd hon, bydd y Cyngor yn ceisio paratoi a chyhoeddi'r arweiniad hwn ar ôl i'r safonau proffesiynol ar gyfer pob carreg milltir gael eu hadolygu, fel yr argymhellwyd yn ei gyngor ym mis Gorffennaf 2005. (Argymhellodd y Cyngor y dylid dechrau'r adolygiad hwn ddim hwyrach na mis Ionawr 2008). Wedi ei ddatblygu, byddai angen cynnal a diweddaru'r deunydd hwn yn rheolaidd.

78. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu datblygu ac ymgynghori â darparwyr ynghylch pa mor ddymunol fyddai llunio Cofrestr Darparwyr a allai gynorthwyo athrawon yng Nghymru i nodi cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael ledled Cymru. Bydd manylion pellach yn dilyn yn hyn o beth yn 2007. (Amserlen yn Atodiad D).

*Argymhellion:*

Mae'r Cygnor yn argymell:

- y dylid ffurfiol rhaglenni a threfniadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru er mwyn:
    - o bod gan bob un o'r cerrig milltir proffesiynol yng ngyrfa athro/athrawes raglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn gysylltiedig â hi a'i bod yn cael ei hategu gan safonau proffesiynol;
    - o yn amodol ar fodloni rhai meini prawf cymhwyso, byddai rhaglenni cenedlaethol yn agored i bob athro/athrawes;
    - o byddai pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn gydlynus ac yn cynnig dilyniant yn eu cynnwys a'u cwmpas;
    - o er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gallai athrawon ddewis dilyn llwybrau gyrfaol gwahanol ar ôl Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, dylai'r rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer cerrig milltir Athro Siartredig a Phrifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd fod yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol;
    - o byddai datblygiad proffesiynol sy'n bodoli eisoes ar lefel arweinydd canol, yn benodol modiwlau arweinyddiaeth ysgol (SLMs) a hyfforddiant arweinyddiaeth lefel ganol a drefnir gan AALlau a sefydliadau addysg uwch, yn cael eu cynnwys yn y rhaglen genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;
- bod y Cynulliad a chyflogwyr yn ystyried anghenion datblygiad proffesiynol y grwpiau a meysydd penodol lle nodwyd gan ymgynghoriad y Cyngor bod bylchau'n bodoli, er enghraifft:
    - o athrawon sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, mentora a hyfforddi ac addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
    - o athrawon nad ydynt yn gweithio mewn cyd-destun ysgol 'traddodiadol', fel athrawon cyflenwi, athrawon peripatetig a'r rheiny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion;
    - o yr athrawon newydd gymhwyso hynny nad ydynt yn gallu cael swyddi cadarn a chwblhau Sefydlu;

Mae'r Cyngor yn fodlon cynorthwyo'r Cynulliad gyda gwaith o'r fath, os bydd angen;

- petai'r trefniadau cenedlaethol arfaethedig yn cael eu derbyn, bod y Cynulliad yn gwahodd y Cyngor i'w hadolygu'n gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser;
- ei fod yn cymryd yr awenau wrth ddatblygu enghreifftiau ac arweiniad sy'n cynorthwyo athrawon wrth gynllunio eu datblygiad proffesiynol y tu hwnt i unrhyw raglenni a threfniadau cenedlaethol. Byddai'r gwaith hwn yn dechrau ar ôl adolygu pob un o'r safonau proffesiynol gyda chytundeb y Gweinidog i ddechrau o fis Ionawr 2008. Byddai modelau tebyg a ddatblygwyd gan rai AALlau ac ysgolion yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt yn cael eu hystyried.

# Pennod 5
# Cydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon

79. Mae'r Cyngor yn dymuno rhoi cyfle i bob athro/athrawes gael cydnabyddiaeth am eu datblygiad proffesiynol a'u cyflawniadau drwy ddatblygu gwell strwythurau iddynt wneud hyn.

## Rhaglenni a threfniadau cenedlaethol

80. Un ffordd amlwg o gynnig cydnabyddiaeth broffesiynol yw sicrhau bod pob rhaglen strwythuredig a threfniant cenedlaethol yn cael eu llywio tuag at roi cydnabyddiaeth i athrawon am eu cyflawniadau.

81. Mae'r tair rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig sy'n bodoli eisoes yn cynnig math o gydnabyddiaeth broffesiynol, sydd â hygrededd o fewn a thu allan i'r proffesiwn addysgu, sef:

- carreg filltir Statws Athro Cymwys. Er mwyn cael Statws Athro Cymwys, mae'n rhaid i berson fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer SAC. Caiff carreg filltir broffesiynol SAC ei thystysgrifo am fod tystysgrif SAC yn cael ei dyfarnu gan GyngACC.

  Mae dyfarnu SAC (ac felly nodi bod y safonau cenedlaethol wedi'u bodloni) yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol am y rhesymau canlynol:

  - o dim ond personau sy'n meddu ar SAC a gaiff ymgymryd â gwaith penodedig athro/athrawes yng Nghymru; [3]
  - o dan Gyfarwyddeb y GE, caiff athrawon sy'n meddu ar SAC eu cydnabod fel athrawon a chânt weithio felly ym mhob un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE);

- carreg filltir Sefydlu. Ar ôl ennill SAC, er mwyn parhau i weithio fel athro cymwys, mae'n rhaid i athro/athrawes newydd gymhwyso fodloni'r Safonau Sefydlu statudol o fewn cyfnod penodedig. Caiff carreg filltir broffesiynol Sefydlu ei thystysgrifo am fod tystysgrif Sefydlu yn cael ei dyfarnu gan GyngACC.

  Mae Sefydlu Statudol yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol am y rhesymau canlynol:

  - o dim ond personau sy'n bodloni'r safonau Sefydlu a gaiff ymgymryd â gwaith penodedig athro/athrawes yng Nghymru;
  - o caiff athrawon sy'n bodloni'r safon Sefydlu yng Nghymru eu cydnabod felly hefyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon;

  Fodd bynnag, mae anawsterau disgrifio statws athro/athrawes sydd wedi bodloni'r safon Sefydlu. Mae'r Cyngor, felly yn cynghori y dylid rhoi 'cofrestriad llawn' i athrawon newydd gymhwyso pan fodlonir y safon Sefydlu. Gallai'r statws cofrestru hwn lwyddo i raddau helaeth i atgyfnerthu pwysigrwydd safon Sefydlu fel tystiolaeth o'r gallu i gyflawni rôl athro/athrawes yn ymarferol. Yn wir, cafwyd cefnogaeth gadarn i'r cynnig hwn yn ystod ymgynghoriad y Cyngor â'r proffesiwn. Felly,

[3] Ac eithrio rhai eithriadau mewn deddfwriaeth

gofynnwn i'r Cynulliad gyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol i ailddiffinio cofrestriad 'amodol' a chofrestriad 'llawn' i'r perwyl hwn.

- carreg filltir Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd. Er mis Medi 2005, mae gofyniad ar i bob pennaeth newydd ei benodi yng Nghymru fod wedi bodloni'r safonau prifathrawiaeth. Caiff carreg filltir Prifathrawiaeth ei thystysgrifo am fod tystysgrif CPCP yn cael ei dyfarnu gan y Cynulliad, a chaiff yr athro/athrawes ddefnyddio llythrennau ôl-enwol.

  Mae'r rhaglen hon yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol am y rhesymau canlynol:

  - o fis Medi 2005, dim ond y rheiny sy'n meddu ar CPCP a gaiff weithio fel penaethiaid (oni bai iddynt gael eu penodi cyn y dyddiad hwnnw);
  - mae dyfarnu CPCP yng Nghymru yn cael ei gydnabod hefyd mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

82. Datblygwyd yr egwyddor hon ymhellach yng nghyngor CyngACC i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2005 drwy argymell y dylai cwblhau rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig ar gyfer carreg filltir newydd Athro Siartredig hefyd arwain at y sefyllfa lle caiff athro ennill cydnabyddiaeth broffesiynol am hyn, drwy ddyfarnu Statws Athro Siartredig. Bydd y Gweinidog yn cofio iddi dderbyn hyn mewn egwyddor a darperir manylion pellach am gynigion y Cyngor yn Rhan B o'r ddogfen yn unol â'r cais.

## Trefniadau cenedlaethol i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol

| Carreg filltir broffesiynol (a safonau proffesiynol cysylltiedig) | Rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol | Cydnabyddiaeth broffesiynol |
|---|---|---|
| Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth | CPCP |
| Athro Siartredig | Rhaglen Athro Siartredig | Statws Athro Siartredig |
| Sefydlu | Rhaglen Sefydlu Statudol | Athro/Athrawes Gofrestredig CyngACC |
| Statws Athro Cymwys (SAC) | Rhaglen addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybr drwy gyflogaeth, fel Rhaglen Athro Graddedig | SAC |

Mae hyn yn cynnwys sut y gallai athrawon ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol fel tystiolaeth o 'Ddysgu Blaenorol Achrededig' (DBA) neu 'Ddysgu Achrededig drwy Brofiad Blaenorol' (DABB).

83. Ar y sail hon, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r Fframwaith sefydlu'r trefniadau cenedlaethol canlynol i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol.

84. Roedd sefydlu strwythur cenedlaethol i roi cyfleoedd i bob athro/athrawes gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu DPP, fel y cynigir yn y bennod hon, yn boblogaidd iawn yn ystod ymgynghoriad y Cyngor, a'r farn gyffredinol oedd y byddai'n cael effaith sylweddol ar helpu i godi statws y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Cafwyd cryn ddiddordeb a thrafodaeth hefyd am y syniad o gyflwyno ffurf newydd o gydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer yr athrawon hynny sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth neu mewn rolau arweinyddiaeth ganol.

## Datblygiad proffesiynol arall a'r posibilrwydd o gael cydnabyddiaeth broffesiynol amdano

85. Un o brif fanteision y trefniadau cenedlaethol hyn yw y bydd pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn rhoi cyfleoedd i athrawon ddefnyddio pob math o ddatblygiad proffesiynol arall fel tystiolaeth tuag at fodloni'r safonau angenrheidiol ar gyfer unrhyw garreg filltir. Cafwyd croeso brwd i'r cysyniad hwn yn ystod ymgynghoriad y Cyngor â'r proffesiwn.

86. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rhaglen Athro Siartredig newydd. (Ceir manylion pellach yn Rhan B o'r cyngor hwn).

*Argymhellion:*

### Mae'r Cyngor yn argymell:

- bod y trefniadau cenedlaethol a gynigir ym Mhennod 5 yn cael eu ffurfioli er mwyn bod cyfleoedd digonol i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol, sef:
    - o SAC;
    - o Cofrestriad llawn gyda ChyngACC (pan fodlonir y safon Sefydlu);
    - o Statws Athro Siartredig;
    - o CPCP.
- bod y Cynulliad yn gweithio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i fireinio 'cofrestriad llawn' yng Nghymru i athrawon sydd wedi bodloni'r safon Statudol a 'chofrestriad amodol' i athrawon sy'n meddu ar SAC ond nad ydynt eto wedi bodloni'r safon Sefydlu;
- os bydd y trefniadau cenedlaethol arfaethedig yn cael eu derbyn gan y Cynulliad, yna dylid gwahodd y Cyngor i adolygu'r rhain yn gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser.

# Pennod 6
# Ennill achrediad ar gyfer datblygiad proffesiynol

87. Fel cydnabyddiaeth broffesiynol, cymharol isel yw nifer yr athrawon sy'n defnyddio'u datblygiad proffesiynol i gael 'credyd' tuag at gymwysterau academaidd pellach.

88. Mae mecanweithiau eisoes yn eu lle yn y sector AU yng Nghymru i athrawon ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol yn y modd hwn, fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o athrawon yn manteisio ar gyfleoedd o'r fath.

## Rhaglenni a threfniadau cenedlaethol, fel cyfleoedd i athrawon ennill achrediad

89. Ffordd amlwg o gynnig achrediad i athrawon yw sicrhau bod yr holl raglenni datblygiad proffesiynol strwythuredig a threfniadau cenedlaethol yn cael eu llywio tuag at roi cyfleoedd i athrawon ennill achrediad o fewn y Fframwaith AU.

90. Wrth ddiffinio perthynas o'r fath, mae'r Cyngor yn mabwysiadu Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a ddatblygwyd gan CCAUC, ELWa ac ACCAC. Mae prif nodweddion FfCChC fel a ganlyn:

- mae'n darparu strwythur uno unigol ar gyfer credyd a chymwysterau mewn addysg uwch;
- mae'n rhoi dysgwyr yn y canol, gan eu galluogi i gael credyd am eu dysgu, waeth bynnag y lefel, amser a gymerwyd, graddau neu leoliad;
- mae'n defnyddio credyd fel teclyn i asesu gwerthoedd cymharol, a rhai y gellir eu cronni tuag at ddyfarniadau cyffredinol yn unol â meini prawf a benodir gan gorff dyfarnu;
- mae'n sicrhau cydsyniad cyffredinol yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru ynghylch cyfanswm nifer y credydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu'r prif gymwysterau AU.

91. Darperir manylion pellach am FfCChC yn Atodiad B.

92. Gan ddefnyddio FfCChC, mae'r Cyngor yn cynnig y berthynas ganlynol rhwng y cerrig milltir proffesiynol a'r gydnabyddiaeth a'r achrediad y gallai athrawon eu cael o fewn y Fframwaith.

93. Wrth ystyried y tabl, mae'r Cyngor yn pwysleisio bod y Fframwaith yn pennu'r credyd, yr achrediad a lefel y credyd a fyddai'n cael eu dyfarnu fel arfer yn berthynol i bob carreg filltir broffesiynol a rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol. Fodd bynnag, ni all y Cyngor warantu y bydd achrediad o'r fath yn dilyn bob tro am mai mater i sefydliadau AU fydd cael eu bodloni ym mhob achos bod yr athro/athrawes unigol wedi bodloni'r safonau academaidd angenrheidiol.

94. Mae amrywiaeth yr opsiynau achredu a gynigir i athrawon sy'n bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer Sefydlu neu Athro Siartredig yn werth eu nodi. Fel y mae'r tabl yn ei nodi, gall y rhain gynnwys credyd tuag at Dystysgrif i Raddedigion, Diploma i Raddedigion, gradd Meistr neu Ddoethuriaeth, yn dibynnu i ba raddau yr oedd yr athro/athrawes yn dymuno dilyn y cynnwys academaidd.

95. Fel gyda'r cynigion ym Mhennod 5, mae'r Cyngor yn cynghori'r Gweinidog bod strwythur cenedlaethol i roi cyfleoedd i bob athro/athrawes gael achrediad am eu DPP (fel y cynigir yn y

## Perthynas rhwng y fframwaith proffesiynol ac achrediad o fewn y fframwaith AU

| Carreg filltir broffesiynol | Rhaglenni neu drefniadau datblygiad proffesiynol: *Rhaglen* | Rhaglenni neu drefniadau datblygiad proffesiynol: *Datblygiad proffesiynol pellach ar ôl cwblhau* | Cydnabyddiaeth broffesiynol | | Achrediad o fewn y Fframwaith AU: *Lefel* | *Credydau* | *Dyfarniad* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth | Y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP)<br>Y Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd (LPSH) | CPCP | | 7 | 60 | Tuag at radd Meistr |
| Athro Siartredig | Rhaglen Athro Siartredig | | Statws Athro Siartredig | Achrediad posibl | 8 | 540 | Doethuriaeth |
| | | | | | 7 | 180 | Gradd Meistr* |
| | | | | | | 120 | Diploma Ôl-raddedig |
| | | | | | | 60 | Tystysgrif Ôl-raddedig |
| Sefydlu | Rhaglen Sefydlu Statudol | Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) | Sefydlu | | 6 | 120 | Diploma i Raddedigion |
| | | | | | | 60 | Tystysgrif i Raddedigion |
| Statws Athro Cymwys (SAC) | Rhaglen addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybr drwy gyflogaeth, fel y Rhaglen Athro Graddedig | | SAC | | 6 | 360 | Gradd |
| | | | | | 5 | 240 | DipAB/DipHE |
| | | | | | 4 | 120 | TystAB/CertHE |

bennod hon) yn boblogaidd iawn yn ystod ymgynghoriad y Cyngor. Yn arbennig, teimlwyd ei fod yn sgil-gynnyrch hynod werthfawr o DPP athrawon ac roedd cefnogaeth frwd iddo gan y sector AU yng Nghymru. Yn wir, dewisodd pob un o sefydliadau addysg a hyfforddiant cychwynnol Cymru ymateb i'r ymgynghoriad a chroesawsant y cynigion a wnaed. Ymhlith y sylwadau nodedig a wnaed roedd:

UCET Cymru – "Mae'r sector SAU yn cefnogi'r cynnig hwn yn frwd"

IPDA Cymru – "Rydym yn croesawu'r ffaith bod dyfarniadau AU yn cael eu cynnwys yn strwythur y fframwaith proffesiynol i raddau sylweddol. Mae hyn yn darparu cyfle i bob darparwr, a sefydliadau AU yn arbennig, i weithio tuag at gydlyniaeth bellach o ran darpariaeth a chydnabyddiaeth"

## Datblygiad proffesiynol arall a'r posibilrwydd o gael achrediad amdano

96. Un o brif fanteision y trefniadau cenedlaethol hyn yw y bydd pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn rhoi cyfleoedd helaeth i athrawon ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol anffurfiol fel tystiolaeth tuag at rai cymwysterau academaidd. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol yn achos y rhaglen Athro Siartredig newydd. Darperir manylion pellach yn Rhan B o'r cyngor hwn.

97. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn rhwystro athrawon rhag mynd yn uniongyrchol at sefydliadau AU i geisio cael 'credyd' am ddatblygiad proffesiynol arall y maent wedi ymgymryd ag ef.

98. Ymhlith y sylwadau perthnasol a dderbyniwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor roedd:

> NEWI – "Rydym yn cefnogi barn y Cyngor y dylai achrediad naill ai drwy DBA, DABB neu drwy raglenni astudiaeth a addysgir fod yn gysylltiedig â cherrig milltir proffesiynol".

> Cyfarwyddwr Addysg o AALI yng Nghymru – "byddai'n werth ystyried ymchwilio'r posibilrwydd o gysylltu Datblygiad Proffesiynol Cynnar â chydnabyddiaeth ar ffurf Tystysgrif i Raddedigion neu Ddiploma, o ystyried bod ffrwd gyllid eisoes ar gyfer DPC".

*Argymhellion:*

### Mae'r Cyngor yn argymell:

- bod y trefniadau cenedlaethol a gynigir ym Mhennod 6 yn cael eu ffurfioli er mwyn bod cyfleoedd digonol i athrawon gael achrediad am eu datblygiad proffesiynol;
- bod y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r sector AU yng Nghymru i lunio strategaeth ar y cyd sy'n:
    - o mynd i'r afael â'r cynigion achredu a wneir;
    - o yn galluogi ac yn annog athrawon i ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol i gael achrediad o'r fath.

  Byddai gwaith ar ddatblygu strategaeth o'r fath yn dechrau'n gynnar yn 2007;
- os bydd y Cynulliad yn derbyn y trefniadau cenedlaethol arfaethedig, yna dylid gwahodd y Cyngor i adolygu'r rhain yn gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser.

# RHAN B

# Y rhaglen datblygiad Proffesiynol Genedlaethol ar gyfer Carreg Filltir Athro Siartredig

# RHAN B
# Y rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig

99. Yn ei gyngor i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2005, argymhellodd y Cyngor sefydlu rhaglenni cenedlaethol strwythuredig o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer dwy garreg filltir newydd, sef Athro Siartredig ac Uwch Arweinydd. Darperir crynodeb o'r argymhellion hyn isod.

## Argymhellion CyngACC i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2005

### Rhaglenni cenedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig ar gyfer Athro Siartredig ac Arweinydd Canol

- dylid sefydlu rhaglenni cenedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig:
  - er mwyn cynorthwyo athrawon i ddatblygu eu harfer yn yr ystafell ddosbarth;
  - ar gyfer arweinwyr canol.
- dylai'r nodweddion allweddol canlynol fod yn rhan o'r rhaglenni:
  - dylent gael eu datblygu gan y Cyngor, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid, ond eu cyflwyno'n lleol gan ddarparwyr cymeradwy, fel sefydliadau addysg uwch, AALlau ac eraill;
  - dylent fod yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol;
  - dylai fod modd eu cyflawni drwy gwblhau modiwlau a/neu drwy ddefnyddio Dysgu Blaenorol Achrededig (DBA) neu Ddysgu Achrededig drwy Brofiad Blaenorol (DABB);
  - ni ddylai fod iddynt unrhyw gysylltiad â thâl, a dylent fod yn agored i bob athro/athrawes sy'n dymuno'u dilyn, ar ôl y cyfnod Sefydlu;
  - dylent dynnu ar brofiadau'r proffesiwn addysgu yn yr Alban a phroffesiynau eraill â rhaglenni tebyg;
  - i adlewyrchu'r ffaith bod llawer o athrawon, yn enwedig y rheiny yn y sector cynradd, yn meddu ar gyfrifoldebau fel arweinwyr canol a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth, dylid strwythuro'r rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig ac Uwch Arweinydd yn y fath ffordd fel bod modd hwyluso 'ymagwedd gyfun-cydwedd';
- dylai cwblhau'r rhaglenni'n llwyddiannus arwain at ddyfarnu 'Statws Athro Siartredig' gan GyngACC. Fodd bynnag, dylid ystyried ymhellach sut orau i ddynodi arbenigedd Arweinydd Canol;
- yn amodol ar ymchwilio ymhellach i fanylion, amserlenni a chostau'r rhaglen o dan Haen 2 o'r Fframwaith, dylai'r Cynulliad nodi ei gefnogaeth ar gyfer rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig ar gyfer athrawon dosbarth, gan arwain at gydnabyddiaeth broffesiynol.

100. Yn gyson â bwriadau'r Cyngor fel y nodir ym Mhennod 1 i argymell carreg filltir unigol ar gyfer Athro Siartredig yn unig, mae'r Cyngor yn yr un modd yn cynnig rhaglen genedlaethol unigol, sef ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r argymhelliad hwn, mae'n bwysig y bydd angen i'r rhaglen fod yn berthnasol i arfer dosbarth ac arweinyddiaeth ganol fel ei gilydd.

101. Roedd y Gweinidog yn cefnogi argymhelliad y Cyngor ym mis Gorffennaf 2005 ar gyfer Rhaglen Athro Siartredig, yn amodol ar weld cynigion manylach ar gyfer y rhaglen.

102. Wrth ymateb i'r cais hwn, mae'r adran hon o'r cyngor yn gwneud argymhellion ar gyfer siâp cyffredinol y rhaglen, gan ymdrin yn benodol â'r materion canlynol:

- diben y rhaglen Athro Siartredig;
- y berthynas â'r safonau proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig;
- y llwybrau posibl tuag at gyflawni'r safonau/ cwblhau'r rhaglen;
- cymhwysedd i ddechrau'r rhaglen Athro Siartredig;
- darparwyr y rhaglen ac achredu'r rhaglen a'i darparwyr;
- amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen, gan gynnwys cynnal cynllun peilot ar gyfer Athro Siartredig;
- cyllid ar gyfer y rhaglen.

103. Wrth osod cyngor ar y rhaglen Athro Siartredig, dymuna'r Cyngor bwysleisio bod ei ymgynghoriad ar Haen 2 wedi esgor ar ddiddordeb a thrafod aruthrol ar y posibilrwydd o gyflwyno Rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru.

104. Yn ogystal â'r llu o safbwyntiau cadarnhaol a fynegwyd gan sefydliadau fel undebau athrawon, sefydliadau AHCA ac AALlau drwy'r ymarfer ymgynghori ysgrifenedig, derbyniodd y Cyngor hefyd gryn gefnogaeth gan athrawon a fynychodd bedair seminar a gynhaliodd ym mis Mawrth ac Ebrill 2006. Drwy dargedu pob un o'r seminarau at grŵp gwahanol o athrawon (athrawon profiadol, Penaethiaid/Dirprwy Benaethiaid/Penaethiaid Cynorthwyol, athrawon yn eu tair blynedd cyntaf ers SAC), bu modd i'r Cyngor gasglu trawstoriad eang iawn o safbwyntiau.

105. Mae manylion pellach am yr ymatebion a ddarparwyd yn cael eu cynnwys drwy Ran B o'r cyngor hwn.

# Pennod 7
# Cyfansoddiad y rhaglen

## Diben y rhaglen genedlaethol

106. Disgrifir diben a manteision disgwyliedig y rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig isod. Wrth nodi'r manteision hyn, mae'n bwysig darparu ar gyfer anghenion yr athro/athrawes dosbarth a'r arweinydd canol fel ei gilydd.

### Manteision generig

- dod â chysondeb a chydlyniaeth i ddatblygiad proffesiynol athrawon;
- cynnig cydraddoldeb cyfle i athrawon wrth gyrchu datblygiad proffesiynol;
- darparu cysondeb â cherrig milltir SAC, Sefydlu a Phrifathrawiaeth, drwy gynnig cyfle i athrawon ddilyn rhaglenni datblygiad proffesiynol a drefnir yn genedlaethol ac a gydnabyddir;
- sicrhau bod athrawon sy'n cwblhau rhaglenni o'r fath yn cael eu cydnabod yn broffesiynol o fewn a thu allan i'r proffesiwn, drwy gynnig 'Statws Siartredig';
- helpu i osod safonau uchel, sy'n adeiladu ar gyflawniadau a galluoedd profedig athrawon;

### Ar gyfer yr athro/athrawes ddosbarth

- galluogi athrawon i ddewis llwybr a fydd yn caniatáu iddynt aros yn yr ystafell ddosbarth yn hytrach na dilyn llwybr arweinyddiaeth, ac sydd ar yr un pryd yn cynnig datblygiad proffesiynol strwythuredig ac astudiaethau proffesiynol pellach;
- galluogi athrawon unigol a'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd i ddangos ymrwymiad at ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth ac awydd i hyrwyddo dysgu drwy ddatblygu pob math o weithredu proffesiynol;
- galluogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth a datblygu eu rôl eu hunain fel ymarferwyr dosbarth. Ar ben hynny, darparu gwybodaeth a sgiliau pellach a fydd yn eu galluogi i ddarparu arbenigedd a chefnogaeth i gydweithwyr mewn materion yn ymwneud ag arfer dosbarth;
- codi statws a chydnabyddiaeth gyhoeddus i athrawon sy'n dymuno aros yn yr ystafell ddosbarth;
- rhoi mwy o ffocws o amgylch rhaglen genedlaethol o'r fath yn yr amrywiaeth o gyrsiau HMS a datblygiad proffesiynol a ddarperir gan AALlau, SAU a darparwyr eraill ac annog cydweithrediad drwy hynny;

### Ar gyfer yr Arweinydd Canol

- cydnabod bod ystod eang o gyfrifoldebau ar lefel arweinydd canol a darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol cydlynus i athrawon;
- galluogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ganol a datblygu eu rolau eu hunain fel arweinwyr canol.
- darparu gwybodaeth a sgiliau pellach i athrawon a fydd yn eu galluogi i rannu

arbenigedd a darparu cefnogaeth fentora i'w cydweithwyr;

- codi statws a chydnabyddiaeth gyhoeddus i athrawon ar lefel arweinydd canol;
- tynnu ynghyd a chysoni strwythur y trefniadau presennol, gan gynnwys rhaglenni Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgol (SLM), rhaglenni Arweinwyr Lefel Ganol, hyfforddiant mewn swydd a chefnogaeth ymgynghorol i arweinwyr canol.

## Safonau proffesiynol

107. Roedd cyngor y Cyngor i'r Gweinidog ar Haen 1 y Fframwaith yn argymell y canlynol:

- y dylid sefydlu carreg filltir broffesiynol newydd ar gyfer Athro Siartredig gyda safonau proffesiynol cysylltiedig;
- y dylid datblygu safonau ar gyfer carreg filltir newydd Athro Siartredig o dan set gyffredin o benawdau (yn ogystal ag ailddatblygu'r safonau presennol ar gyfer SAC, Sefydlu a Phrifathrawiaeth o dan y penawdau hyn).

108. Argymhellir, mewn modd tebyg i gerrig milltir presennol SAC, Sefydlu a Phrifathrawiaeth, y caiff y rhaglen genedlaethol ei chynllunio i fynd i'r afael â'r safonau proffesiynol ar gyfer y garreg filltir newydd. Felly, drwy ymgymryd â'r rhaglen genedlaethol ar gyfer Athro Siartredig a'i chwblhau'n llwyddiannus, bydd athro/athrawes mewn gwirionedd yn dangos ei fod/bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer y garreg filltir arbennig honno.

109. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys athrawon dosbarth ac arweinwyr canol profiadol i ddatblygu set o safonau drafft ar gyfer Athro Siartredig. Yn gyson â pharagraff 216 o'i gyngor i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2005, bydd y safonau yn ceisio dangos disgwyliadau uchel ac arwyddion o ragoriaeth athrawon ar y lefelau hyn.

110. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar y safonau drafft yn yr Hydref 2006, gyda golwg ar roi ffurf derfynol arnynt erbyn mis Rhagfyr 2006. Bydd barn y sector AU yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu gosod yn fath ffordd fel eu bod yn caniatáu achredu ar lefelau priodol FfCChC fel yr awgrymir ym Mhennod 6.

### Safbwyntiau'r proffesiwn

111. Cadarnhawyd lefel gref o gefnogaeth i'r syniad o gyflwyno rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol yn ystod ymgynghoriad y Cyngor, ar gyfer y grŵp helaeth iawn o athrawon yng nghanol eu gyrfaoedd, sy'n dyheu am ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth neu sy'n meddu ar gyfrifoldebau arweinyddiaeth ganol. Roedd ymatebwyr yn glir bod diffyg datblygiad proffesiynol achrededig o ansawdd uchel ar hyn o bryd a bod angen dybryd amdano. Mae'n ddiddorol hefyd bod nifer o ymatebwyr ar lefel Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol nad ydynt yn dymuno mynd yn benaethiaid hefyd yn gefnogol iawn o gynigion y Cyngor ac yn teimlo y byddai Rhaglen o'r fath yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr iddynt hwy lle roedd diffyg ar hyn o bryd.

112. Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol i'r rhaglen gael ei hategu gan safonau proffesiynol, ac wrth ddatblygu'r safonau y dylid ystyried eu cysylltiad â'r safonau presennol fel y rheiny ar gyfer y Trothwy, Athro Sgiliau Uwch ac Athro Rhagorol.

113. Wrth gefnogi Athro Siartredig, roedd ymatebwyr o athrawon yn glir hefyd y dylai fod mor ymarferol â phosibl a gofyn i athrawon ddangos eu hunain fel 'ymarferwyr adfyfyriol', yn hytrach na bod yn or-academaidd neu ddamcaniaethol.

114. Er eu bod yn cefnogi cyflwyno Athro Siartredig, roedd rhai ymatebwyr serch hynny o'r farn bod angen i'r Cyngor fod yn ofalus na fyddai system ddwy haen yn datblygu dros amser, sef lle byddai rhai athrawon yn meddu ar Statws Siartredig ac eraill hebddo. Mae'r Cyngor wedi ystyried y pwynt hwn, ond yn teimlo y dylai'r safonau ar gyfer Statws Athro Siartredig fod yn ymestynnol ac yn rhai y dylai'r athrawon dosbarth a'r arweinwyr canol gorau oll ddyheu amdanynt. Felly, mae nifer yr athrawon sy'n meddu ar Statws Athro Siartredig mewn unrhyw ysgol yn debygol o fod yn gymharol isel.

115. Holodd nifer fach o ymatebwyr a fyddai Statws Athro Siartredig yn dod yn rhagofyniad ar gyfer y rheiny a oedd yn dymuno dechrau CPCP a dod yn benaethiaid. Yn y cyswllt hwn, byddai'r Cyngor yn cynghori'r Gweinidog nad yw'n argymell hyn, ond gellid ei ailystyried yn yr hirdymor yng ngoleuni profiad.

## Llwybrau

116. Argymhellodd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2005 y gallai rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig gynnig dau lwybr tuag at fodloni'r priod safonau proffesiynol:

- llwybr rhaglen neu lwybr a addysgir;
- llwybr achredu.


117. Roedd yr argymhelliad hwn yn adlewyrchu'r trefniadau sydd yn eu lle yn yr Alban mewn perthynas â'u rhaglen Athro Siartredig hwy (gweler Atodiad C am enghraifft ar ffurf diagram o'r rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban).

118. Cafwyd lefel uchel o gefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu dau lwybr tuag at statws Athro Siartredig yn ystod ymgynghoriad diweddar y Cyngor gyda'r proffesiwn ar Haen 2 y Fframwaith, gydag ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd a gâi athrawon o ystyried eu hamgylchiadau personol a phroffesiynol amrywiol.

### *Llwybr Rhaglen*

119. Ni fwriedir nodi manylion llawn y llwybr rhaglen ar yr adeg hon. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cynghori y dylai llwybr o'r fath gynnwys y nodweddion canlynol:

- bydd yn berthnasol i athrawon dosbarth, arweinwyr canol a'r rheiny sy'n cyflawni'r ddwy rôl. Felly, tybir y bydd gan y rhaglen set gyffredin o fodiwlau craidd, gyda modiwlau pellach yn benodol ar gyfer arfer yn yr ystafell ddosbarth neu arweinyddiaeth ganol. Bydd hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i athrawon deilwra'r rhaglen at eu hanghenion datblygiad proffesiynol a'u dyheadau gyrfaol eu hunain;
- bydd yn berthnasol i waith ac arfer beunyddiol athrawon, gyda phwyslais cryf ar ddadansoddi, adfyfyrio a gwella arfer;
- bydd yn cynnig cyfuniad o fecanweithiau cyflwyno, gan gynnwys er enghraifft:
  - o rhaglenni a gaiff eu haddysgu;
  - o hunan-astudio;




- o hyfforddiant wyneb yn wyneb;
- o sesiynau gweithdy;
- o arsylwi ystafell ddosbarth;
- o profiad preswyl;
- o dysgu o bell a dysgu ar y we.

- bydd yn ceisio ystyried a thynnu ar raglenni sy'n bodoli eisoes, fel CPCP, y Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgol, hyfforddiant arweinyddiaeth ganol a'r Rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban;
- bydd yn cynnwys cyfleoedd i athrawon gael credyd am ddysgu blaenorol, drwy Ddysgu Blaenorol Achrededig (DBA) neu Ddysgu Achredig drwy Brofiad Blaenorol (DABB), drwy dynnu ar eu harfer addysgu a'u datblygiad proffesiynol presennol. Yn yr Alban, caiff athrawon gredyd am hyd at 6 modiwl mewn rhaglen a addysgir drwy DBA neu DABB;
- bydd yn galluogi athrawon i ymgymryd â nifer fach o fodiwlau os dymunant wneud hynny. Byddai hyn yn rhoi'r fantais o alluogi athrawon i ymgymryd â DPP a gydnabyddir ac a achredir yn genedlaethol, heb yr angen i gwblhau'r Rhaglen Athro Siartredig gyfan. Yna gellid 'bancio'r' credyd at y dyfodol neu ei ddefnyddio i gael rhyw fath o achrediad academaidd;
- bydd yn gofyn i ddarparwyr y rhaglenni gynllunio'r rhaglenni, ar sail:
  - o y safonau proffesiynol ar gyfer cerrig milltir Athro Siartredig;
  - o arweiniad a ddatblygir gan y Cyngor.

## *Llwybr achredu*

120. Mae'r Cyngor yn argymell rhoi cyfle i athrawon profiadol iawn gyflwyno tystiolaeth (drwy Ddysgu Blaenorol Achrededig (DBA) neu Ddysgu Achredig drwy Brofiad Blaenorol (DABB)) sy'n

dangos eu bod eisoes wedi cyflawni'r safonau proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig.

121. I ddangos sut y gallai trefniant o'r fath weithredu yng Nghymru, gellir tynnu cymariaethau yn erbyn trefniadau sydd ar waith yn yr Alban. Fel y nodir yn y diagram yn Atodiad C, gallai athrawon profiadol iawn baratoi a chyflwyno portffolio o dystiolaeth ac adroddiad adfyfyriol sy'n ceisio dangos eu bod yn bodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig (y llwybr achredu).

122. Wrth ddatblygu ei achos, caiff athro/athrawes gefnogaeth mentor, a bennir iddo/iddi gan GyngAC yr Alban. Ar ôl cyflwyno cyflwyniad, caiff y portffolio a'r adroddiad adfyfyriol eu gwerthuso gan banel cenedlaethol annibynnol o aseswyr, sydd wedi'u cymeradwyo gan GyngAC yr Alban, i bennu a yw'r safonau ar gyfer Athro Siartredig wedi'u bodloni ai peidio.

## Safbwyntiau'r proffesiwn

123. Roedd ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor yn cefnogi'r ddau lwybr arfaethedig tuag at fodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig a hefyd yn croesawu'r opsiwn 'cyfun-cydwedd', lle gallai athro/athrawes geisio cael credyd tuag at nifer o fodiwlau ar raglen a addysgir.

124. Cafwyd cefnogaeth frwd hefyd ar gyfer yr opsiwn lle câi athro/athrawes ddewis cwblhau nifer fach o fodiwlau at ddibenion datblygiad proffesiyol yn hytrach na'r rhaglen Athro Siartredig gyfan.

125. Un mater a sbardunodd drafodaeth ymysg y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy oedd y llwybr a fyddai fwyaf priodol i athro/athrawes ac a fyddai un llwybr yn dod yn fwy poblogaidd na'r llall neu beidio. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn tynnu sylw at nifer o ffactorau perthnasol:

- er nad yw'n dymuno rhagfynegi canlyniad gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n datblygu'r safonau ar gyfer Athro Siartredig, mae'r Cyngor o'r farn y dylai'r safonau fod yn ymestynnol. Felly, bydd y llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig ar gyfer athrawon dosbarth ac arweinwyr canol profiadol iawn sydd eisoes yn bodloni'r safonau 'heriol' hyn yn unig;
- caiff rhai athrawon dosbarth ac arweinwyr canol eu denu gan y datblygiad proffesiynol ffurfiol a gynigir gan raglen a addysgir, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn arbennig yr athrawon hynny gyda llai o brofiad ar ôl Sefydlu a DPC;
- bydd yr ymagwedd 'gyfun-cydwedd' lle gallai athrawon gael credyd, naill ai drwy DBA neu DABB yn rhoi mwy o hyblygrwydd i athrawon ac yn helpu athrawon i deilwra Athro Siartredig at eu profiad a'u hamgylchiadau personol eu hunain;
- byddai'r Cyngor yn cyhoeddi arweiniad i gynorthwyo athrawon wrth benderfynu pa lwybr i'w ddilyn.

*Argymhellion:*

**Mae'r Cygnor yn argymell:**

- dylai fod dau lwybr tuag at fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig – llwybr rhaglen (a addysgir) a llwybr achredu. Fodd bynnag, byddai athrawon sy'n dilyn rhaglen a addysgir hefyd yn gallu cael credyd drwy DBA/DABB tuag at un neu fwy o fodiwlau;
- gallai athrawon ddewis ymgymryd â nifer fach yn unig o fodiwlau a manteisio ar y datblygiad proffesiynol a ddaw yn sgil hyn, ond peidio â chwblhau'r rhaglen gyfan a chael eu hasesu yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;
- mater i athrawon unigol fyddai penderfynu pa lwybr i'w ddilyn, yn dibynnu ar eu profiad, eu hanghenion datblygiad proffesiynol a'u hamgylchiadau personol eu hunain. Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, byddai'r llwybr achredu ar gyfer yr athrawon hynny â chryn dipyn o brofiad yn y dosbarth/arweinyddiaeth ganol.

## Hyd y rhaglen genedlaethol

126. Mae'n fanteisiol datblygu'r rhaglen yn y fath ffordd fel y gall athrawon sy'n dymuno'i chwblhau wrth eu pwysau eu hunain wneud hynny.

127. Mae hyd rhaglenni datblygiad proffesiynol eraill fel a ganlyn:

- hyd yn hyn cwblhawyd y rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban mewn dwy flynedd ar gyfartaledd gan athrawon sy'n dilyn y llwybr rhaglen ynghyd â cheisiadau am Ddysgu Blaenorol Achredededig o hyd at chwe modiwl. Heb unrhyw Ddysgu Blaenorol Achredededig yn lle modiwlau, disgwylir i'r broses gymryd mwy o amser. Eto i gyd, mae athrawon sy'n dilyn y llwybr achredu wedi cwblhau'r rhaglen mewn blwyddyn;
- mae rhaglen CPCP yn cymryd 12 mis ar y lleiaf ac 20 mis ar y mwyaf i'w chwblhau;
- mae rhai rhaglenni Arweinyddiaeth Lefel Ganol, fel y rheiny sy'n cael eu rhedeg gan AALI Caerdydd mewn cydweithrediad ag Athrofa Abertawe yn para dwy flynedd, gyda chwe modiwl achrededig yn cael eu cyflwyno bob tymor. Yn ogystal, mae angen cwblhau tasgau rhyng-sesiynol yn yr ysgol a thasg achrededig derfynol. Er mwyn ennill Diploma i Raddedigion mewn Datblygiad Proffesiynol ar ôl cwblhau'r cwrs, caiff athrawon gyflwyno'u portffolio datblygiad proffesiynol i'w achredu.

128. Mae'r Cyngor yn argymell y byddai'r rhaglen genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig fel arfer yn cael ei chwblhau mewn:

- dwy flynedd ar y lleiaf ar gyfer y rhaglen a addysgir, a;
- blwyddyn ar gyfer y llwybr achredu.

129. Fodd bynnag, yn gyson â barn ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor, byddai hyn yn amrywio yn dibynnu ar yr athro/athrawes unigol.

## Cymhwysedd

130. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen genedlaethol, mae'r Cygnor yn argymell y byddai angen i athro/athrawes fodloni'r meini prawf canlynol:

- meddu ar SAC;
- bod wedi cofrestru gyda ChyngACC;
- bod wedi bodloni'r safon Sefydlu ac wedi cwblhau dwy flynedd o DPC a dwy flynedd pellach o addysgu, neu lle mae athro/athrawes wedi ei eithrio/heithrio rhag y gofyniad i fodloni'r safon Sefydlu, fod wedi cael o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu, ar ôl SAC. Fodd bynnag, lle bydd gan athro/athrawes brofiad blaenorol sylweddol o'r tu allan i'r proffesiwn addysgu, gallai fod yn briodol dechrau'r rhaglen yn syth ar ôl DPC. Byddai darpariaethau addas yn y maen prawf cymhwyso hwn i bobl sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n cymryd hoe yn ystod cyfnod eu gwasanaeth.

131. Gofynnodd rhai o ymatebwyr ymgynghoriad y Cyngor a fyddai angen treulio amser sylweddol ymaith o'r ysgol i gwblhau gofynion Athro Siartredig ai peidio. Os byddai, teimlwyd y gallai rhai penaethiaid fod yn amharod i'w rhyddhau, yn arbennig mewn ysgolion llai, er gwaethaf y ffaith bod athro/athrawes yn gymwys i fynd ati i ennill statws Athro Siartredig.

132. Mewn ymateb i'r pryder hwn, mae'r Cyngor yn ail-bwysleisio'i sylw yn gynharach yn y bennod hon lle gwêl sefyllfa lle gellid cyflwyno rhaglen a addysgir mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys rhaglenni a addysgir, hunan-astudio, hyfforddiant wyneb yn wyneb, sesiynau gweithdy a phrofiad preswyl. Hefyd, disgwylir y byddai rhaglenni ar gael drwy'r Brifysgol Agored neu ar-lein. Yn yr Alban, cwblheir gofynion Athro Siartredig y tu allan i oriau ysgol.

133. Byddai ymagwedd hyblyg fel hyn yn negyddu'r angen i athrawon dreulio cyfnodau estynedig ymaith o'r ystafell ddosbarth, yn arbennig lle ceisiwyd credyd tuag at nifer o fodiwlau mewn rhaglen a addysgir drwy DBA neu DABB.

*Argymhellion:*

**Mae'r Cyngor yn argymell:**

- dylai athrawon allu dangos eu bod yn bodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig wrth eu pwysau eu hunain. Fodd bynnag, gallai athrawon fel arfer gymryd dwy flynedd ar y lleiaf i gwblhau rhaglen a addysgir neu ddeuddeg mis i baratoi a chyflwyno portffolio datblygiad proffesiynol i'w achredu;
- i fod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen, byddai'r meini prawf canlynol yn berthnasol:
  - o meddu ar SAC;
  - o bod wedi cofrestru gyda ChyngACC;
  - o bod wedi bodloni'r safon Sefydlu ac wedi cwblhau dwy flynedd o DPC a dwy flynedd pellach o addysgu, neu lle mae athro/athrawes wedi ei eithrio/heithrio rhag y gofyniad i fodloni'r safon Sefydlu, fod wedi cael o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu, ar ôl SAC. Fodd bynnag, lle bydd gan athro/athrawes brofiad blaenorol sylweddol o'r tu allan i'r proffesiwn addysgu, gallai fod yn briodol dechrau'r rhaglen yn syth ar ôl DPC. Byddai darpariaethau addas yn y maen prawf cymhwyso hwn i bobl sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n cymryd hoe yn ystod cyfnod eu gwasanaeth.

# Pennod 8
# Darparwyr y rhaglen genedlaethol a'u hachrediad

134. Yn ei gyngor ym mis Gorffennaf 2005 argymhellodd y Cyngor y dylai'r rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig gael ei datblygu "gan y Cyngor, mewn partneriaeth â'i bartneriaid, ond ei chyflwyno'n lleol gan ddarparwyr cymeradwy, fel sefydliadau addysg uwch, AALlau ac eraill".

135. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae'r trefniadau canlynol yn eu lle:

- rhaglenni addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn sefydliadau a achredir gan CCAUC;
- caiff llwybrau eraill at SAC, fel y Rhaglen Athro Graddedig (GTP) eu gweinyddu gan y Cynulliad;
- gweithredir y CPCP gan CELT drwy'r Ganolfan CPCP a leolir ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hyn drwy gontract i'r Cynulliad;
- cyflwynir modiwlau arweinyddiaeth ysgol a hyfforddiant arweinwyr lefel ganol gan sefydliadau addysg uwch ac AALlau.

136. Yn yr Alban, mae'r trefniadau canlynol ar waith ar gyfer y rhaglen Athro Siartredig.

- Llwybr rhaglen (modiwlaidd). Caiff llwybr rhaglen (modiwlaidd) y rhaglen Athro Siartredig ei gyflwyno gan naw darparwr achredig ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddarparwyr DPP, sef wyth o Brifysgolion yr Alban a City & Guilds/Rocket Learning Programme. Fodd bynnag, mae gofyn i bob darparwr ddangos bod eu rhaglenni'n cynnwys cydweithio, yn arbennig gyda phartneriaid mewn Awdurdodau Lleol;
- Llwybr achredu. Mae'r llwybr Dysgu Blaenorol Achrededig wedi'i rannu'n ddau gyfnod, sef y cyfnod ymgynghorol a'r cyfnod asesu. Pennir ymgynghorydd i bob athro/athrawes sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r athro/athrawes wrth baratoi eu cyflwyniad Dysgu Blaenorol Achrededig yn erbyn safonau'r Athro Siartredig. Rhaid i'r cyflwyniad gynnwys adroddiad adfyfyriol a phortffolio o dystiolaeth sy'n dangos bod y safonau wedi'u bodloni. Unwaith i gais Dysgu Blaenorol Achrededig gael ei gyflwyno i GyngAC yr Alban, mae dau asesydd o banel cenedlaethol a gymeradwywyd ac a hyfforddwyd gan GyngAC yr Alban yn ystyried y cyflwyniad a'r dystiolaeth yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'r aseswyr yn argymell a yw'r meini prawf i ennill statws proffesiynol Athro Siartredig wedi'u bodloni ai peidio. Caiff yr holl argymhellion eu safoni wedi hyn gan banel asesu cenedlaethol.

137. Mae'r Cyngor yn argymell y canlynol:

## Llwybr rhaglen

138. Mae'r Cyngor yn argymell nad yw'n pennu pwy fydd darparwyr y rhaglen Athro Siartredig. Yn hytrach, ar ôl datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, mater i ddarpar

ddarparwyr fydd llunio rhaglenni a cheisio achrediad iddynt gan y Cyngor.

139. Fodd bynnag, wrth wneud yr argymhelliad hwn, byddai'r Cyngor am sicrhau'r canlynol:

- bod cynnwys rhaglenni darparwyr yn berthnasol i athrawon dosbarth profiadol, arweinwyr canol profiadol a'r rheiny â gofynion datblygiad proffesiynol mwy penodol fel y rheiny sy'n addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu Ddirprwy Benaethiaid/ Penaethiaid Cynorthwyol nad ydynt yn dyheu am Brifathrawiaeth;
- bod rhaglenni darparwyr ar gael ac yn hygyrch i athrawon ledled Cymru;
- bod SAU, AALlau ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth wrth lunio a chyflwyno rhaglenni;
- bod ystod eang o ddulliau cyflwyno, gan gynnwys dysgu o bell a dysgu ar y we;

140. Byddai'r Cyngor, fel perchennog y garreg filltir newydd, yn disgwyl cymryd nifer o gyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag achredu'r Rhaglen Athro Siartredig a'i darparwyr. Byddai'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;
- llunio arweiniad ar gyfer darpar ddarparwyr wrth lunio rhaglenni i GyngACC eu hachredu;
- cymeradwyo'r darparwyr a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni, ar ôl sefydlu'n gyntaf feini prawf ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd.

141. Cafwyd cefnogaeth gref gan ymatebwyr yn ystod ymgynghoriad y Cyngor i gynigion y Cyngor ar gyfer darparwyr y llwybr rhaglen (a addysgir).

Yn arbennig, mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol:

- ystyriwyd bod rôl CyngACC wrth achredu rhaglen broffesiynol a'i darparwyr yn gwbl briodol ar gyfer corff proffesiynol ac yn gyson â rôl debyg a gymerir gan gyrff mewn proffesiynau eraill ac ym maes addysgu mewn gwledydd eraill;
- mae ymateb y Gweinidog i adolygiad Furlong o Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru yn ffafrio rôl ehangach ar gyfer sefydliadau AHCA yn y dyfodol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol athrawon. Mae argymhellion y Cyngor ar gyfer Athro Siartredig yn cyd-fynd yn dda â'r bwriadau hyn;
- mae SAU ac AALlau wedi mynegi diddordeb mawr mewn gweithio gyda'i gilydd fel darpar ddarparwyr rhaglenni Athro Siartredig. Cafwyd cefnogaeth gadarnhaol drwy gyfarfodydd o'r holl sefydliadau AHCA, ADEW a thrwy ymatebion ysgrifenedig unigol i ymgynghoriad y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn deall bod nifer o SAU ac AALlau wedi dechrau trafodaethau anffurfiol ynghylch datblygu partneriaethau i gyflwyno Athro Siartredig a'u bod yn awyddus i gynnal cynlluniau peilot gyda rhaglenni / modiwlau. Mae hyn yn gadarnhaol iawn a bydd yn helpu i adeiladu ar drefniadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â modiwlau arweinyddiaeth ysgol a hyfforddiant arweinwyr lefel ganol mewn rhai rhannau o Gymru;
- mynegwyd awydd gan ymatebwyr unigol i'r Cyngor, yn arbennig y rheiny a oedd yng ngrwpiau seminar y Cyngor, i'r Rhaglen Athro Siartredig fod ar gael ledled Cymru, i osgoi rhai o'r anawsterau gyda'r modiwlau

arweinyddiaeth ysgol a'r hyfforddiant arweinydd lefel ganol presennol, sy'n haws i'w cyrchu mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill. Hefyd, mynegodd ymatebwyr ddymuniad i weld DPP yn cael ei gynnig drwy ddull dysgu o bell gan ddarparwyr fel y Brifysgol Agored a'r we;

- awgrymodd un o ymatebwyr SAU i'r ymgynghoriad y gallai CyngACC geisio cymryd y cyfle i sefydlu 'ymagwedd gydweithredol Cymru-gyfan', lle gallai modiwlau Athro Siartredig gael eu datblygu ac yna eu defnyddio gan nifer o ddarparwyr. Byddai modiwlau o'r fath yn cael eu datblygu gan grŵp Cymru-gyfan gyda chynrychiolaeth gan gonsortia AALlau ac SAU. Teimlwyd y byddai gan hyn y fantais o fod yn ddilys o'r cychwyn cyntaf gyda'r un raddfa gredyd gan bob darparwr.

## Llwybr achredu

142. Mae'r Cygnor yn argymell y dylai sefydlu a goruchwylio trefniadau a fyddai'n galluogi athrawon i gyflwyno ceisiadau am DBA neu DABB i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig.

143. Bydd cyfrifoldebau o'r fath yn cynnwys:

- llunio arweiniad i gynorthwyo athrawon profiadol wrth ddatblygu eu portffolios tystiolaeth i'w cyflwyno yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;
- rheoli'r gwaith o asesu ceisiadau am DBA ac DABB ar gyfer athrawon profiadol sy'n gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r Safon berthnasol;
- penodi aseswyr cymeradwy a fyddai'n ystyried ceisiadau am DBA neu DABB.

144. Er nad yw'r Cyngor yn dymuno mynd i fanylion y ceisiadau DBA/DABB ar yr adeg hon, mae'r Cyngor yn rhagweld y byddai angen paratoi'r canlynol ar y lleiaf, fel yn achos athrawon yr Alban sy'n dilyn y llwybr achredu:

- portffolio o dystiolaeth a oedd yn dangos eu bod yn bodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig;
- adroddiad yn adfyfyrio am eu profiad addysgu a'u datblygiad proffesiynol.

145. Cafwyd cefnogaeth gref gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor i gynigion y Cyngor. Yn arbennig, nodir y sylwadau canlynol:

- yn debyg i'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r llwybr Rhaglen, ystyriwyd bod rôl CyngACC o sefydlu a goruchwylio trefniadau wrth achredu rhaglen broffesiynol a'i darparwyr yn gwbl briodol ar gyfer corff proffesiynol ac yn gyson â rôl debyg a gymerir gan gyrff tebyg mewn proffesiynau eraill ac ym maes addysgu mewn gwledydd eraill;
- dewisodd nifer o ymatebwyr fynegi barn ynghylch pwy allai fod yn aseswr. Er na fyddai'r Cyngor yn dymuno mynnu unrhyw atebion penodol, gallai'r fath bobl a allai gynnig y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol gynnwys:
    - o pobl â phrofiad helaeth o addysgu/ arweinyddiaeth ganol;
    - o pobl o SAU;
    - o pobl o dimau ymgynghorol AALlau;
    - o pobl sydd, maes o law, wedi ennill Statws Athro Siartredig eu hunain.

*Argymhellion:*

Mae'r Cygnor yn argymell:

- Llwybr rhaglen (a addysgir) tuag at statws Athro Siartredig – nid yw'n pennu pwy ddylai fod yn ddarparwyr Athro Siartredig. Yn hytrach, ar ôl datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, mater i ddarpar ddarparwyr fyddai datblygu rhaglenni a cheisio cael eu hachredu gan y Cyngor;

- fel perchennog y garreg filltir newydd, byddai'r Cyngor yn disgwyl cymryd nifer o gyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag achredu'r Rhaglen Athro Siartredig a'i darparwyr, gan gynnwys:

    - datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;
    - llunio arweiniad ar y rhaglen genedlaethol a'i strwythur posibl
    - cymeradwyo'r darparwyr a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni, ar ôl sefydlu'n gyntaf feini prawf ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd.

- Llwybr achredu tuag at Athro Siartredig - dylai sefydlu a goruchwylio trefniadau a fyddai'n galluogi athrawon i geisio am DBA neu DABB drwy ddangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, gan gynnwys:

    - llunio arweiniad i gynorthwyo athrawon profiadol wrth ddatblygu eu portffolios tystiolaeth i'w cyflwyno yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;
    - rheoli'r gwaith o asesu ceisiadau am DBA ac DABB ar gyfer athrawon profiadol sy'n gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r Safon berthnasol;
    - penodi aseswyr cymeradwy a fyddai'n ystyried ceisiadau am DBA neu DABB.

Pennod 9

# Materion gweithredu

146. Yn amodol ar gefnogaeth y Gweinidog, mae'r Cyngor yn argymell ei fod yn gweithio yn unol â'r amserlen amlinellol a nodir isod wrth weithredu'r Rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru.

147. Wrth gynnig yr amserlen hon, mae'r Cyngor yn cynghori ei fod wedi diwygio'r dyddiad dechrau arfaethedig gwreiddiol o fis Medi 2008 ar gyfer y Rhaglen Athro Siartredig a hynny'n dilyn sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'w ymgynghoriad. Yn arbennig, ystyriwyd bod angen digon o amser i werthuso canlyniadau'r cynlluniau peilot ar gyfer y llwybr rhaglen (a addysgir) a'r llwybr achredu tuag at ennill statws Athro Siartredig.

148. Yn amodol ar y diwygiad hwn, barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd bod yr amserlen weithredu a'r camau a nodwyd ynddi yn gynhwysfawr a bod modd eu cyflawni.

## Cyffredinol

| Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Datblygu safonau drafft ar gyfer Athro Siartredig | Ebrill 2006 – Medi 2006 |
| Ymgynghori ar y safonau ar gyfer Athro Siartredig | Medi – Rhagfyr 2006 |
| Gosod safonau ar gyfer Athro Siartredig yn eu ffurf derfynol a'u cyhoeddi | Rhagfyr 2006 – Ionawr 2007 |
| Trafod yn anffurfiol gyda'r Cyfrin Gyngor a chyflwyno achos y Cyngor i ddod yn gorff Siartredig i ddyfarnu Statws Athro Siartredig | Medi 2006 |
| Cyflwyniad ffurfiol gan GyngACC i'r Cyfrin Gyngor i ddod yn gorff Siartredig i ddyfarnu Statws Athro Siartredig, gan gynnwys rhannu drafftiau gyda swyddogion y Cyfrin Gyngor | Mawrth 2007 – Mawrth 2008 |
| Cadarnhau CyngACC yn Gorff Siartredig i ddyfarnu Statws Athro Siartredig | Mawrth 2008 |

## Llwybr rhaglen (a addysgir)

| Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Trafodaethau/seminarau ffurfiol gyda darpar ddarparwyr | Medi – Tachwedd 2006 |
| Darparwyr i ddatblygu modiwlau peilot a'u cyflwyno i GyngACC | Tachwedd 2006 – Chwefror 2007 |
| Cadarnhau darparwyr a modiwlau'r cynlluniau peilot | Ebrill 2007 |
| Gwahodd athrawon i gynorthwyo yn y cynllun peilot | Ebrill – Mehefin 2007 |
| Cynnal y cynlluniau peilot | Medi 2007 – Awst 2009 |

## Llwybr rhaglen (a addysgir) parhad

| Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Gwerthuso'r cynlluniau peilot | Mawrth 2008 – Mehefin 2009 |
| CyngACC i ddatblygu deunydd arweiniad ar gyfer darparwyr Athro Siartredig | Ebrill 2008 |
| Darparwyr i gyflwyno rhaglenni Athro Siartredig arfaethedig i GyngACC eu hachredu | Awst 2008 |
| CyngACC i achredu'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf | Medi – Rhagfyr 2008 |
| Darparwyr a ChyngACC i farchnata'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf | Ionawr – Awst 2008 |
| Dechrau'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf | Medi 2009 |

## Llwybr achredu

| Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Trafodaethau/seminarau ffurfiol gyda darpar aseswyr mewn perthynas â'r llwybr DBA/DABB tuag at statws Athro Siartredig | Medi – Rhagfyr 2006 |
| Proses ymgeisio i benodi aseswyr ar gyfer y prosiectau peilot | Chwefror – Mawrth 2007 |
| Penodi aseswyr ar gyfer y prosiect peilot | Ebrill 2007 |
| Gwahodd athrawon i gynorthwyo yn y prosiect peilot | Ebrill – Mehefin 2007 |
| Cynnal y cynlluniau peilot | Medi 2007 – Awst 2009 |
| Gwerthuso'r cynlluniau peilot | Mawrth 2008 – Mehefin 2009 |
| Proses ymgeisio a phenodi aseswyr ar gyfer y llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig | Rhagfyr 2008 – Mawrth 2009 |
| Hyfforddi aseswyr ar gyfer y llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig | Mawrth – Awst 2009 |
| Datblygu arweiniad ar gyfer athrawon profiadol sy'n ceisio DBA/DABB i ennill statws Athro Siartredig | Ebrill 2009 |
| CyngACC i farchnata dechrau'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig | Ionawr – Awst 2009 |
| Dechrau'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig | Medi 2009 |

*Argymhellion:*

Mae'r Cygnor yn argymell y canlynol:

- dylai'r cynlluniau peilot ar gyfer y llwybr Rhaglen (a addysgir) a'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig ddechrau ym mis Medi 2007;
- dylai'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf a'r gwaith o baratoi ceisiadau am DBA/DABB gan athrawon profiadol ddechrau ym mis Medi 2009.

# Pennod 10
# Cyllid a chostau'r Rhaglen Athro Siartredig

## Cyllido'r Rhaglen Athro Siartredig

149. Yn ei gyngor i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2005, esboniodd y Cyngor fod y rhan fwyaf o ddatblygiad proffesiynol arall sy'n gysylltiedig â cherrig milltir proffesiynol presennol yn cael ei gyllido'n ganolog gan y Cynulliad. Er enghraifft, Sefydlu statudol a CPCP. Wedi dweud hynny, mae gofyn i athrawon sy'n dilyn y rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban dalu costau'r rhaglen eu hunain, fodd bynnag dyfernir pwynt cyflog ychwanegol o dan gyflogau, telerau ac amodau athrawon pan ddyfernir Statws Athro Cymwys yn yr Alban.

150. Mae'r Cyngor yn ailbwysleisio'r cyngor a gyflwynodd ym mis Gorffennaf 2005 drwy argymell yn gryf bod y Cynulliad yn sefydlu trefniadau cenedlaethol fel y gallai athrawon dderbyn cyllid llawn i gwblhau'r rhaglen Athro Siartredig. Byddai cefnogaeth y Cynulliad i gynnig o'r fath yn dangos ei ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol pob athro/athrawes, yn enwedig y rheiny sy'n dymuno aros yn yr ystafell ddosbarthu neu sy'n gweithio ar lefel arweinyddiaeth ganol ac sydd heb dderbyn darpariaeth i fodloni eu hanghenion datblygiad proffesiynol ar lefel genedlaethol yn y gorffennol.

151. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, dymuna'r Cyngor hefyd bwysleisio y caiff rhywfaint o gyllid y Cynulliad ac AALlau ar gyfer datblygiad proffesiynol ei ryddhau yn y dyfodol wrth i argymhellion Adolygiad Furlong o Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gael eu gweithredu. Hefyd, fel y cynghorodd ym mis Gorffennaf 2005, byddai cyflwyno Athro Siartredig yn golygu bod Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgol a rhaglenni Arweinydd Canol presennol yn cael eu cynnwys ynddo.

152. Fodd bynnag, wrth gyllido Athro Siartredig, ni ddylai fod unrhyw rwystrau cyllido i athrawon sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Athro Siartredig rhag dechrau'r rhaglen.

153. Cafwyd cefnogaeth gadarn gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Cyngor i'r egwyddor y dylai Athro Siartredig gael ei gyllido'n ganolog gan y Cynulliad. Gellid gweinyddu hyn drwy ffrwd gyllido ychwanegol o fewn rhaglen gyllido DPP CyngACC, drwy gorff cyllido canolog arall neu drwy'r Cynulliad ei hun.

## Costau cyflwyno'r Rhaglen Athro Siartredig – yr Astudiaeth Beilot

154. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 9, byddai'r Cyngor yn awgrymu cynnal cynlluniau peilot ar gyfer y ddau lwybr dros gyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2007. Byddai'r Cyngor yn talu rhywfaint o gostau'r cynllun peilot ei hun, ond yn gobeithio derbyn cyfraniad tuag at y costau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

155. Mae'r costau amlinellol a ddaw i ran CyngACC a'r Cynulliad fel a ganlyn:

### *Llwybr rhaglen*

| | |
|---|---|
| 6 modiwl peilot gan ddarparwyr gwahanol | £120,000 (£20,000 fesul safle peilot) |
| 10 athro fesul peilot – Costau cyflenwi a threuliau | £60,000 |

### *Llwybr achredu*

| | |
|---|---|
| Penodi a gwaith 3 Aseswr | £20,000 |
| 5 athro – Costau cyflenwi a threuliau | £10,000 |

### *Costau generig*

| | |
|---|---|
| Gwerthuso'r cynllun peilot | £50,000 |
| Costau gweinyddu a staffio | Gweler isod * |

156. Gobeithir y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu costau cynllun peilot y llwybr rhaglen (a addysgir) fel y nodir uchod. Byddai'r costau arbennig hyn yn rhychwantu blynyddoedd ariannol 2007-08 a 2008-09.

## Costau cyflwyno'r Rhaglen Athro Siartredig

157. Wrth argymell bod y Cynulliad yn cyllido'r Rhaglen Athro Siartredig i athrawon yn ganolog, mae'r Cyngor yn cynghori y gellid cyflwyno hyn gyda llai na £2m y flwyddyn o gyllid gan y Cynulliad.

158. Mae amcangyfrif o'r costau wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

### *Llwybr rhaglen*

159. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai cost modiwl Athro Siartredig unigol yw £600 y modiwl, ar sail cost debyg yn yr Alban. Yn nodweddiadol, mae athrawon yn yr Alban yn cwblhau dau fodiwl a addysgir y flwyddyn a hefyd yn ceisio cael achrediad drwy DBA/DABB ar gyfer modiwlau pellach (hyd at 6 ar y mwyaf) y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai cost cyflwyno DBA/DABB yw £300 y modiwl.

160. Gan gymryd un athro ar gyfartaledd yn cwblhau dau fodiwl a addysgir ac yn ceisio DBA/DABB ar gyfer un modiwl y flwyddyn, cost Athro Siartredig yng Nghymru fyddai £1,500 y flwyddyn am bedair blynedd. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddai oddeutu 250 athro/athrawes y flwyddyn yn ymrestru ar raglenni Athro Siartredig ac yn cwblhau'r rhaglen ar y cyflymder cyfartalog a nodir.

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|
| **Yn dechrau** | | | | |
| 2009-10 | £375,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 |
| 2010-11 | | £375,000 | £375,000 | £375,000 |
| 2011-12 | | | £375,000 | £375,000 |
| 2012-13 | | | | £375,000 |
| Cyfanswm | £375,000 | £750,000 | £1,125,000 | £1,500,000 |

161. Ar y sail hon, mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddai angen oddeutu £1.5 miliwn o gyllid gan y Cynulliad am flwyddyn nodweddiadol, gyda 1,000 o athrawon yn gysylltiedig â'r cynllun Athro Siartredig ar unrhyw bwynt penodol. Wrth ddatblygu'r amcangyfrif hwn, dymuna'r Cyngor nodi'r tybiaethau canlynol:

(a) mae'r tabl uchod yn dangos y byddai'r gost am y 3 blynedd cyntaf yn is wrth i'r rhaglen symud i flwyddyn 'nodweddiadol';

(b) byddai angen taro cydbwysedd ym mlynyddoedd cynnar y rhaglen rhwng caniatáu i ddarparwyr gynyddu niferoedd ar y rhaglen yn raddol a pheidio â siomi athrawon a oedd yn dymuno dechrau'r rhaglen. Felly, mae'r Cyngor yn cynghori'r Gweinidog y gellid neilltuo £1.5 miliwn o gyllid ar gyfer blynyddoedd un i dri yn syth, rhag ofn bydd darparwyr yn gallu ymdopi â niferoedd uwch;

(c) ni neilltuwyd unrhyw gostau ar gyfer athrawon cyflenwi neu dreuliau athrawon. Mae hyn yn adlewyrchu model yr Alban lle nad yw modiwlau'n golygu rhyddhau athrawon o'r ysgol. Fodd bynnag, petai'r Cynulliad yn dymuno teilwra hyn, yna byddai angen i'r cyllid gan y Cynulliad gynyddu;

(d) Mae'r amcangyfrif y byddai dim mwy na 250 o athrawon yn ymrestru ar lwybr rhaglen bob blwyddyn, gyda mwyafswm o 1,000 o athrawon yn y system ar unrhyw adeg benodol yn rhesymol o ystyried proffil presennol athrawon ar y Gofrestr Athrawon Cymwys.

### *Llwybr achredu*

162. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai'r gost i athro/athrawes baratoi a chyflwyno portffolio o dystiolaeth (gan gynnwys adroddiad adfyfyriol) i'w hasesu yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig yw £1,500 fesul athro/athrawes. Mae hyn wedi'i seilio ar gost gyfredol yr Alban o £1,200, a disgwylir i hyn godi yn y dyfodol.

163. Ar y sail y bydd 150 o athrawon yn cyflwyno cyflwyniadau bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cynghori mai'r cyllid y byddai ei angen bob blwyddyn fyddai £225,000. Byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu cost aseswyr a chostau gweinyddol CyngACC i oruchwylio'r llwybr hwn.

## Costau i GyngACC

164. Mae'r Cyngor yn cynghori bod Athro Siartredig yn garreg filltir broffesiynol (nad yw'n orfodol). Byddai gweinyddu rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol ar gyfer Athro Siartredig yn 'waith craidd' i'r Cyngor fel corff proffesiynol ac felly, byddai'r Cyngor yn disgwyl talu rhai costau ei hun.

165. Mae'r Cyngor yn glir o brofiadau CyngAC yr Alban y bydd angen recriwtio tîm bach o staff i oruchwylio gweithrediad, peilota a gweinyddiaeth hirdymor y rhaglen Athro Siartredig. Crynhoir costau amlinellol y gwaith hwn isod. Byddai'r costau hyn yn cael eu talu'n gynyddrannol o fis Medi 2007.

### *Llwybr rhaglen*

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi deunydd arweiniad ar gyfer athrawon a darparwyr | £20,000 |

### *Llwybr achredu*

| | |
|---|---|
| Recriwtio Aseswyr | £10,000 |
| Hyfforddi Aseswyr | £20,000 |
| Cyhoeddi deunydd arweiniad ar gyfer athrawon ac aseswyr | £20,000 |

### *Costau generig*

| | |
|---|---|
| Costau gweinyddu a staffio (blynyddol) | £120,000* |
| Datblygu systemau T.G. i gefnogi gweinyddiaeth Athro Siartredig | £30,000 |

* Bydd y Cyngor yn recriwtio tîm i weinyddu'r Rhaglen Athro Siartredig yn gynyddrannol yn ystod camau'r cynllun peilot a'r gweithredu.

*Argymhellion:*

Mae'r Cyngor yn argymell:

- dylai'r Cynulliad sefydlu trefniadau cyllido cenedlaethol ar gyfer athrawon sy'n dymuno cwblhau'r rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol i ennill statws Athro Siartredig;
- dylai cyllid fod o lefel ddigonol fel nad oes unrhyw rwystrau rhag dechrau'r rhaglen i athrawon sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y Cyngor;
- byddai angen hyd at £2 filiwn o gyllid y flwyddyn gan y Cynulliad i alluogi athrawon a oedd yn dymuno dilyn naill ai'r llwybr rhaglen (a addysgir) neu'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig i wneud hynny.

# Atodiad

# Atodiad A

## Diffiniad o'r termau allweddol

Mae'r Atodiad hwn yn diffinio termau allweddol a ddefnyddir gan y Cyngor yn Haen 2: datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad.

Wrth ddatblygu'r diffiniadau, mae'r Cyngor wedi tynnu'n helaeth ar ddiffiniadau a nodir yn Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru, a ddatblygwyd gan CCAUC, ELWa ac ACCAC yn 2004.

| ***Term*** | ***Diffiniad / disgrifiad arfaethedig*** | ***Nodiadau yn berthnasol i'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol*** |
|---|---|---|
| Datblygiad proffesiynol | Mae Datblygiad Proffesiynol yn cwmpasu'r holl ddysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi athrawon i wella eu harferion. | Cynigiwyd y diffiniad hwn gan y Cyngor yn ei gyngor yn 2002 i'r Cynulliad, *DPP: Hawl i Bawb.*<br><br>Mae paragraffau 17 i 19 o'r ddogfen hon yn cynnig enghreifftiau i gynnwys ehangder datblygiad proffesiynol athrawon. |
| Rhaglen (datblygiad proffesiynol) genedlaethol | Grŵp cydlynus o weithgareddau dysgu (er enghraifft, unedau, cyrsiau, modiwlau neu gydrannau eraill) sydd â nod a rhesymeg gyffredinol iddynt. | Mae safonau cenedlaethol ar gyfer athrawon yng Nghymru eisoes yn bodoli ar gyfer cerrig milltir proffesiynol Statws Athro Cymwys, Sefydlu a Phrifathrawiaeth. |
| Cydnabyddiaeth broffesiynol | Lle bydd athro/athrawes yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer un o'r pedair carreg filltir broffesiynol o fewn y Fframwaith, caiff ef/hi gydnabyddiaeth broffesiynol am hyn. | Mae'r gydnabyddiaeth broffesiynol a ddyfernir i athro/athrawes wrth fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer pob carreg filltir fel hyn ar hyn o bryd:<br>• Statws Athro Cymwys – SAC<br>• Sefydlu Statudol – Sefydlu<br>• Prifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd - CPCP<br><br>Mae'r Cyngor yn cyflwyno cynigion ar gyfer y gydnabyddiaeth broffesiynol a allai gael ei dyfarnu i athrawon sy'n bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir newydd Athro Siartredig ym mhennod 5 o'r ddogfen hon. |
| Achrediad | Lle bydd athro/athrawes yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer un o'r pedair carreg filltir broffesiynol yn y Fframwaith, **gallai** ef/hi gael ei asesu/hasesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu ar gyfer cymhwyster academaidd penodol neu geisio cael credyd am hyn. | Mae Pennod 6 yn cynnig arweiniad ac yn cyflwyno cynigion ynghylch pa gymwysterau a chredyd y gellid ystyried sy'n briodol ar gyfer pob carreg filltir broffesiynol o fewn y Fframwaith. |

| *Term* | *Diffiniad / disgrifiad arfaethedig* | *Nodiadau yn berthnasol i'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol* |
|---|---|---|
| Credyd | Credyd yw'r dyfarniad a roddir i athro/athrawes i gydnabod cyflawni canlyniadau dysgu penodedig ar lefel gredyd benodol. Mae swm y credyd a roddir wedi'i seilio ar amcangyfrif o'r amser dysgu y byddai'n ei gymryd i'r dysgwr cyffredin gyflawni'r canlyniad dysgu penodedig. | Mae credyd yn darparu teclyn sy'n gallu bod yn gysylltiedig â dysgu athro/athrawes, boed yn broffesiynol, yn academaidd neu'n alwedigaethol ('yn y swydd'). Dylid ei ddiffinio yn nhermau cyflawniad dysgu (lefel) a graddau'r dysgu a ddilynwyd (amser dysgu). |
| Lefelau credyd | Mae lefel y credyd yn dangos galw, cymhlethdod, dyfnder dysgu a grym cymharol y dysgwr sy'n deillio o ddisgrifwyr lefelau generig cytunedig. | Yn gyson â Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru, bydd y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol yn mabwysiadu hierarchaeth lefelau System Cronni a Throsglwyddo Credydau Gogledd Iwerddon (NICATS), sydd hefyd wedi'i mabwysiadu gan Gyrff Credyd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r hierarchaeth yn cwmpasu pob math o ddysgu ôl-orfodol ac ar hyn o bryd, mae 9 lefel, gan gynnwys 4 lefel addysg cyn addysg uwch, 3 lefel israddedig a 2 lefel ôl-raddedig.<br><br>Mae manylion pellach am y perthnasau arfaethedig wedi'u nodi ym mhennod 6. |
| Credyd a Chymwysterau | Mae credyd yn ddyfarniad ynddo'i hun a gellir ei gronni tuag at gymwysterau o dan feini prawf penodol. | Er y gallai rhaglen ddysgu sy'n dwyn credydau arwain at gymhwyster, nid yw'r credyd ynddo'i hun yn gymhwyster, ond yn hytrach yn gydnabyddiaeth o gyflawniad. Felly, dylid ystyried credyd fel dyfarniad, nid fel cymhwyster. Caiff y meini prawf ar gyfer cronni credyd tuag at unrhyw gymhwyster eu nodi gan y corff dyfarnu priodol. |
| Dysgu Blaenorol Achrededig (DBA) | Dyfarnu credyd am ddysgu perthnasol athro/athrawes | Mae Dysgu Blaenorol Achrededig yn berthnasol i gydnabyddiaeth broffesiynol ac achrediad. |
| Dysgu Achrededig drwy Brofiad Blaenorol (DABB) | Dyfarnu credyd am ddysgu perthnasol athro/athrawes | Mae Dysgu Achrededig drwy Brofiad Blaenorol yn berthnasol i gydnabyddiaeth broffesiynol ac achrediad. |

| *Term* | *Diffiniad / disgrifiad arfaethedig* | *Nodiadau yn berthnasol i'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol* |
|---|---|---|
| Modiwl | Mae modiwl yn floc dysgu cydlynus arwahanol. Gallai fod yn rhan o raglen neu sefyll ar ei ben ei hun. Dylai teitl y modiwl ddisgrifio'r cynnwys a gyflwynir, a rhaid diffinio'r fethodoleg asesu er mwyn priodoli'r credyd a'r lefel briodol. Dylid asesu pob modiwl ar wahân, gyda'r asesu hwn yn darparu tystiolaeth addas o gyflawniadau ar gyfer dyfarnu credyd i unrhyw fodiwl. | |
| Canlyniadau dysgu | Yr hyn y mae athrawon wedi'i ddysgu ac yn gallu ei ddangos ar unrhyw bwynt penodol. Maent yn ddatganiad o'r hyn y mae disgwyl i athro/athrawes ei wybod, ei ddeall a/neu'n gallu ei wneud yn dilyn profiad dysgu arbennig. | |
| Asesu a meini prawf asesu | Y broses o ddod i farn ynghylch i ba raddau y mae gwaith athro/athrawes yn bodloni'r canlyniadau dysgu gofynnol ar gyfer modiwl, uned neu gymhwyster. | |
| Portffolio tystiolaeth | Casgliad o dystiolaeth a datganiadau ategol a baratoir gan athro/athrawes. | Gall Portffolio tystiolaeth fod ar ffurf copi papur neu electronig a gallai gynnwys casgliad ffisegol o dystiolaeth. |

# Atodiad B

## Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru

Daw'r wybodaeth yn yr Atodiad hwn o Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru.

### Dyfarnu credyd

Mae cydsyniad eang yn y sector AU yng Nghymru ynghylch cyfanswm nifer y credydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu'r prif gymwysterau AU. Mae'r canlynol yn diffinio isafswm nifer y credydau sy'n ofynnol i ddilyn astudiaethau'r prif gymwysterau ar lefel ôl-raddedig:

**Israddedig**

- Tystysgrif — 60 credyd
- Diploma — 240 credyd
- Gradd Anrhydedd — 360 credyd

**Ôl-raddedig**

- Tystysgrif — 60 credyd
- Diploma — 120 credyd
- Gradd Meistr — 180 credyd
- Doethuriaeth — 540 credyd

### Crynodeb o ddisgrifwyr lefel generig NICATS

Dylid ystyried y disgrifwyr lefel yn raddfa ddatblygu lle mae'n anochel fod pob lefel yn cynnwys disgrifwyr y lefel o'i blaen. Fe fydd dysgu sydd wedi ei achredu ar y lefel yma'n adlewyrchu'r gallu i:

**LEFEL MYNEDIAD:** dwyn i gof a dangos dealltwriaeth elfennol mewn amrediad cyfyngedig o feysydd, ymarfer sgiliau sylfaenol o fewn cyd-destunau tra strwythuredig a mynd ati i gyflawni gweithgareddau dan gyfarwyddyd a dan oruchwyliaeth agos.

**LEFEL 1:** dwyn i gof amrediad cyfyngedig o wybodaeth gymwysedig, sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol o fewn amrywiaeth cyfyngedig o gyd-destunau rhagweladwy a strwythuredig, gan gynnwys gweithio gyda phobl eraill dan oruchwyliaeth uniongyrchol, ond rhyw ychydig o ddewis a chyfle i gynnig barn ynghylch unrhyw weithredu posibl.

**LEFEL 2:** cymhwyso gwybodaeth ynghyd â'r ddealltwriaeth sy'n ei chynnal mewn nifer ofeysydd a defnyddio amrywiaeth o sgiliau o fewn nifer o gyd-destunau, rhai ohonynt heb fod yn rhai o ddydd i ddydd; a chyflawni gweithgareddau dan gyfarwyddyd, â rhywfainto annibyniaeth, o fewn terfynau amser penodedig.

**LEFEL 3:** cymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o weithgareddau cymhleth, gan ddangos dealltwriaeth o'r damcaniaethau perthnasol; cyrchu a dadansoddi gwybodaeth yn annibynnol a llunio barn resymegol, gan ddethol o blith dewis sylweddol o weithdrefnau mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd; a chyfarwyddo gweithgareddau ei hun, a bod yn rhannol gyfrifol am allbwn gweithwyr eraill.

**LEFEL 4:** datblygu dull strwythuredig o gaffael sail gwybodaeth eang; defnyddio amrywiaeth o sgiliau arbenigol; gwerthuso gwybodaeth gan ei defnyddio i gynllunio a datblygu strategaethau archwilio ac i bennu atebion i amrywiaeth o broblemau anrhagweladwy; a gweithredu mewn amrywiaeth o gyd-destunau penodol, gan fod yn gyfrifol am natur a safon allbynnau.

**LEFEL 5:** cynhyrchu syniadau trwy ddadansoddi cysyniadau ar lefel haniaethol, gan feddu ar sgiliau arbenigol a ffurfio ymatebion i broblemau haniaethol a rhai sydd wedi eu diffinio'n dda; dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth; ymarfer barn sylweddol mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd; a derbyn cyfrifoldeb am bennu a chyflawni deilliannau personol a/neu ddeilliannau grŵp o bobl.

**LEFEL 6:** adolygu'n feirniadol, atgyfnerthu ac estyn corff o wybodaeth systematig a chydlynol gan ddefnyddio sgiliau arbenigol ar draws maes astudiaeth, gwerthuso'n feirniadol cysyniadau a thystiolaeth newydd o amrywiaeth o ffynonellau; trosglwyddo a chymhwyso sgiliau creadigol a diagnostig ac ymarfer barn sylweddol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd; a derbyn atebolrwydd am bennu a chyflawni deilliannau personol a/neu ddeilliannau grŵp o bobl.

**LEFEL 7:** dangos meistrolaeth ar faes gwybodaeth neu sgiliau cymhleth ac arbenigol, gan ddefnyddio sgiliau uwch i gynnal ymchwil neu weithgareddau technegol neu broffesiynol uwch, a derbyn atebolrwydd am wneud penderfyniadau cysylltiedig, gan gynnwys defnyddio goruchwyliaeth.

**LEFEL 8:** Gwneud cyfraniad arwyddocaol a gwreiddiol i faes ymchwil arbenigol, gan ddangos meistrolaeth ar faterion methodolegol a mynd ati i drafod y maes yn feirniadol â chyfoedion, gan dderbyn atebolrwydd llawn am y deilliannau.

# Atodiad C

## Enghraifft – Y Rhaglen Athro Siartredig yn yr Alban

**Modiwl 1: Hunan-werthuso**

**Llwybr Rhaglen**

Yn ogystal â Modiwl 1, mae gofyn i athro/athrawes gwblhau:

- 3 modiwl pellach;
- 4 modiwl opsiwn;
- 1 neu 2 brosiect ar sail gwaith.

Gellir hawlio Achrediad am ddysgu blaenorol (DBA) ar gyfer hyd at gyfwerth â 6 modiwl.

Darparwr AU yn dyfarnu gradd Meistr

**Llwybr Achredu**

Yn ogystal â Modiwl 1, mae gofyn i athro/athrawes gyflwyno portffolio a sylwebaeth i ddangos sut mae ef/hi wedi cyflawni a chynnal y Safon ar gyfer Athro Siartredig.

Caiff y broses o baratoi cais ei chefnogi ar lefel leol.

Dyfarniad Proffesiynol Athro Siartredig yn cael ei gadarnhau gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

# Atodiad D

## Amserlen amlinellol ar gyfer datblygu ac ymgynghori ar Haenau 3 a 4 y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol 2007-08

Mae amserlen amlinellol ar gyfer ymgynghori ar sefydlu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol a darparu cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi hynny fel a ganlyn:

| ***Gweithredu*** | ***Amserlen amlinellol*** |
|---|---|
| Ymgynghori ag athrawon, undebau ac eraill ar Fframwaith arfaethedig a Haen 1 yn benodol<br><br>CWBLHAWYD | Ionawr 2005 – Ebrill 2005<br><br>CWBLHAWYD |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol, datblygu a chyflwyno cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar strwythur cyffredinol y Fframwaith a materion yn deillio o Haen 1<br><br>CWBLHAWYD | Gorffennaf 2005<br><br>CWBLHAWYD |
| Ymgynghori ag athrawon, undebau ac eraill ar Haen 2 arfaethedig – Cydnabyddiaeth broffesiynol ac achrediad<br><br>CWBLHAWYD | Chwefror 2006 – Ebrill 2006<br><br>CWBLHAWYD |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ar Haen 2, datblygu a chyflwyno cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Haen 2.<br><br>CWBLHAWYD | Awst 2006<br><br>CWBLHAWYD |
| Ymgynghori ag athrawon, undebau ac eraill ar Haen 3 arfaethedig - Cofnodi gweithgareddau datblygiad proffesiynol a hunan-adfyfyrio a Haen 4 arfaethedig - Sicrhau ansawdd darparwyr gweithgareddau DPP | Ionawr 2007 – Ebrill 2007 |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ar Haenau 3 a 4, datblygu a chyflwyno cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Haenau 3 a 4. | Gorffennaf 2007 |

# Atodiad E

## Crynodeb o'r argymhellion

### Pennod 3
### Datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ac achrediad: Egwyddorion allweddol

Mae'r Cyngor yn argymell:

- bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r egwyddorion allweddol a nodwyd ym Mhennod 3 mewn perthynas â datblygiad proffesiynol athrawon a'i gydnabyddiaeth a'i achrediad.

## RHAN A
## Datblygiad Proffesiynol, Cydnabyddiaeth Ac Achrediad

### Pennod 4
### Datblygiad proffesiynol gydol gyrfa: eglurder, cysondeb a phriodoldeb

Mae'r Cyngor yn argymell:

- y dylid ffurfiol rhaglenni a threfniadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiyol athrawon yng Nghymru er mwyn:
    - o bod gan bob un o'r cerrig milltir proffesiynol yng ngyrfa athro/athrawes raglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig yn gysylltiedig â hi a'i bod yn cael ei hategu gan safonau proffesiynol;
    - o yn amodol ar fodloni rhai meini prawf cymhwyso, byddai rhaglenni cenedlaethol yn agored i bob athro/athrawes;
    - o byddai pob un o'r rhaglenni cenedlaethol yn gydlynus ac yn cynnig dilyniant yn eu cynnwys a'u cwmpas;
    - o er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gallai athrawon ddewis dilyn llwybrau gyrfaol gwahanol ar ôl Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, dylai'r rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer cerrig milltir Athro Siartredig a Phrifathrawiaeth ac Uwch Arweinydd fod yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol;
    - o byddai datblygiad proffesiynol sy'n bodoli eisoes ar lefel arweinydd canol, yn benodol modiwlau arweinyddiaeth ysgol (SLMs) a hyfforddiant arweinyddiaeth lefel ganol a drefnir gan AALlau a sefydliadau addysg uwch yn cael eu cynnwys yn y rhaglen genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;
- bod y Cynulliad a chyflogwyr yn ystyried anghenion datblygiad proffesiynol y grwpiau a meysydd penodol lle nodwyd gan ymgynghoriad y Cyngor bod bylchau'n bodoli, er enghraifft:
    - o athrawon sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, mentora a hyfforddi ac addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
    - o athrawon nad ydynt yn gweithio mewn cyd-destun ysgol 'traddodiadol', fel athrawon cyflenwi, athrawon peripatetig a'r rheiny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion;
    - o yr athrawon newydd gymhwyso hynny nad ydynt yn gallu cael swyddi cadarn a chwblhau Sefydlu;

Mae'r Cyngor yn fodlon cynorthwyo'r Cynulliad gyda gwaith o'r fath, os bydd angen;

- petai'r trefniadau cenedlaethol arfaethedig yn cael eu derbyn, bod y Cynulliad yn gwahodd y Cyngor i'w hadolygu'n gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser;

- Ei fod yn cymryd yr awenau wrth ddatblygu enghreifftiau ac arweiniad sy'n cynorthwyo athrawon wrth gynllunio eu datblygiad proffesiynol y tu hwnt i unrhyw raglenni a threfniadau cenedlaethol. Byddai'r gwaith hwn yn dechrau ar ôl adolygu pob un o'r safonau proffesiynol gyda chytundeb y Gweinidog i ddechrau o fis Ionawr 2008. Byddai modelau tebyg a ddatblygwyd gan rai AALlau ac ysgolion yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt yn cael eu hystyried.

## Pennod 5
## Cydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon

Mae'r Cyngor yn argymell:

- bod y trefniadau cenedlaethol a gynigir ym Mhennod 5 yn cael eu ffurfioli er mwyn bod cyfleoedd digonol i athrawon gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu datblygiad proffesiynol, sef:
  - SAC;
  - Cofrestriad llawn gyda ChyngACC (pan fodlonir y safon Sefydlu);
  - Statws Athro Siartredig
  - CPCP.
- bod y Cynulliad yn gweithio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i fireinio 'cofrestriad llawn' yng Nghymru i athrawon sydd wedi bodloni'r safon Statudol a 'chofrestriad amodol' i athrawon sy'n meddu ar SAC ond nad ydynt eto wedi bodloni'r safon Sefydlu;

- os bydd y trefniadau cenedlaethol arfaethedig yn cael eu derbyn gan y Cynulliad, yna dylid gwahodd y Cyngor i adolygu'r rhain yn gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser.

## Pennod 6
## Ennill achrediad ar gyfer datblygiad proffesiynol

Mae'r Cyngor yn argymell:

- bod y trefniadau cenedlaethol a gynigir ym Mhennod 6 yn cael eu ffurfioli er mwyn bod cyfleoedd digonol i athrawon gael achrediad am eu datblygiad proffesiynol;

- bod y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r sector AU yng Nghymru i lunio strategaeth ar y cyd sy'n:
  - mynd i'r afael â'r cynigion achredu a wneir;
  - yn galluogi ac yn annog athrawon i ddefnyddio'u datblygiad proffesiynol i gael achrediad o'r fath.

  Byddai gwaith ar ddatblygu strategaeth o'r fath yn dechrau'n gynnar yn 2007;

- os bydd y Cynulliad yn derbyn y trefniadau cenedlaethol arfaethedig, yna dylid gwahodd y Cyngor i adolygu'r rhain yn gyson ac argymell ffyrdd i'w mireinio neu ychwanegiadau atynt gyda threigl amser.

## RHAN B
## Y rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig

### Pennod 7
### Cyfansoddiad y rhaglen

Mae'r Cyngor yn argymell:

- dylai fod dau lwybr tuag at fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig – llwybr rhaglen (a addysgir) a llwybr achredu. Fodd bynnag, byddai athrawon sy'n dilyn rhaglen a addysgir hefyd yn gallu cael credyd drwy DBA/DABB tuag at un neu fwy o fodiwlau;
- gallai athrawon ddewis ymgymryd â nifer fach yn unig o fodiwlau a manteisio ar y datblygiad proffesiynol a ddaw yn sgil hyn, ond peidio â chwblhau'r rhaglen gyfan a chael eu hasesu yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;
- mater i athrawon unigol fyddai penderfynu pa lwybr i'w ddilyn, yn dibynnu ar eu profiad, eu hanghenion datblygiad proffesiynol a'u hamgylchiadau personol eu hunain. Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, byddai'r llwybr achredu ar gyfer yr athrawon hynny â chryn dipyn o brofiad yn y dosbarth/arweinyddiaeth ganol.

Mae'r Cyngor yn argymell:

- dylai athrawon allu dangos eu bod yn bodloni'r safonau ar gyfer Athro Siartredig wrth eu pwysau eu hunain. Fodd bynnag, gallai athrawon fel arfer gymryd dwy flynedd ar y lleiaf i gwblhau rhaglen a addysgir neu ddeuddeg mis i baratoi a chyflwyno portffolio datblygiad proffesiynol i'w achredu;
- i fod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen, byddai'r meini prawf canlynol yn berthnasol:
  - o meddu ar SAC;
  - o bod wedi cofrestru gyda ChyngACC;
  - o bod wedi bodloni'r safon Sefydlu ac wedi cwblhau dwy flynedd o DPC a dwy flynedd pellach o addysgu, neu lle mae athro/athrawes wedi ei eithrio/heithrio rhag y gofyniad i fodloni'r safon Sefydlu, fod wedi cael o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu, ar ôl SAC. Fodd bynnag, lle bydd gan athro/athrawes brofiad blaenorol sylweddol o'r tu allan i'r proffesiwn addysgu, gallai fod yn briodol dechrau'r rhaglen yn syth ar ôl DPC. Byddai darpariaethau addas yn y maen prawf cymhwyso hwn i bobl sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n cymryd hoe yn ystod cyfnod eu gwasanaeth.

### Pennod 8
### Darparwyr y Rhaglen Athro Siartredig a'u hachrediad

Mae'r Cyngor yn argymell:

- Llwybr rhaglen (a addysgir) tuag at statws Athro Siartredig – nid yw'n pennu pwy ddylai fod yn ddarparwyr Athro Siartredig. Yn hytrach, ar ôl datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, mater i ddarpar ddarparwyr fyddai datblygu rhaglenni a cheisio cael eu hachredu gan y Cyngor;
- fel perchennog y garreg filltir newydd, byddai'r Cyngor yn disgwyl cymryd nifer o gyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag

achredu'r Rhaglen Athro Siartredig a'i darparwyr, gan gynnwys:

- o datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig;
- o llunio arweiniad ar y rhaglen genedlaethol a'i strwythur posibl;
- o cymeradwyo'r darparwyr a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni, ar ôl sefydlu'n gyntaf feini prawf ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd.

- Llwybr achredu tuag i Athro Siartredig - dylai sefydlu a goruchwylio trefniadau a fyddai'n galluogi athrawon i geisio am DBA neu DABB drwy ddangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer carreg filltir Athro Siartredig, gan gynnwys:
  - o llunio arweiniad i gynorthwyo athrawon profiadol wrth ddatblygu eu portffolios tystiolaeth i'w cyflwyno yn erbyn y safonau ar gyfer Athro Siartredig;
  - o rheoli'r gwaith o asesu ceisiadau am DBA ac DABB ar gyfer athrawon profiadol sy'n gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r Safon berthnasol;
  - o penodi aseswyr cymeradwy a fyddai'n ystyried ceisiadau am DBA neu DABB.

## Pennod 9
## Materion gweithredu

Mae'r Cyngor yn argymell:

- dylai'r cynlluniau peilot ar gyfer y llwbr Rhaglen (a addysgir) a'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig ddechrau ym mis Medi 2007;
- dylai'r rhaglenni Athro Siartredig cyntaf a'r gwaith o baratoi ceisiadau am DBA/DABB gan athrawon profiadol ddechrau ym mis Medi 2009.

## Pennod 10
## Cyllid a chostau'r Rhaglen Athro Siartredig

Mae'r Cyngor yn argymell:

- dylai'r Cynulliad sefydlu trefniadau cyllido cenedlaethol ar gyfer athrawon sy'n dymuno cwblhau'r rhaglen datblygiad proffesiynol genedlaethol i ennill statws Athro Siartredig;
- dylai cyllid fod o lefel ddigonol fel nad oes unrhyw rwystrau rhag dechrau'r rhaglen i athrawon sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y Cyngor;
- byddai angen hyd at £2 filiwn o gyllid y flwyddyn gan y Cynulliad i alluogi athrawon a oedd yn dymuno dilyn naill ai'r llwybr rhaglen (a addysgir) neu'r llwybr achredu tuag at statws Athro Siartredig i wneud hynny.